# Adroddiad Lles Blynyddol
2023/24



CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

This document is also available in English /
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Cyflwyniad yr Arweinydd

Ein huchelgais yw gwneud Caerdydd yn brifddinas gryfach, decach a gwyrddach. Dinas gryfach, gyda swyddi sy'n talu'n dda, addysg o ansawdd uchel, tai fforddiadwy a gwasanaethau cyhoeddus gwych. Dinas decach, lle gall pawb fwynhau'r cyfleoedd niferus o fyw yng Nghaerdydd, beth bynnag fo'u cefndir; lle cefnogir y rhai sy'n ddifreintiedig, a lle mae pob trigolyn yn cael ei werthfawrogi, ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi. Dinas wyrddach, sy'n arwain ar yr ymateb i'r argyfwng hinsawdd, yn hyrwyddo bioamrywiaeth ac yn cynnig opsiynau trafnidiaeth cyfleus, hygyrch, diogel a chynaliadwy.

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol hwn yn darparu asesiad o berfformiad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24, y cynnydd yr ydym wedi'i wneud wrth wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer y ddinas, a'r heriau a'r risgiau a wynebwn.

Lluniwyd y dyfarniadau a wnaed yn yr adroddiad hwn yn dilyn proses hunanasesu drylwyr sy'n cynnwys ystyried perfformiad y Cyngor yn helaeth. Mae hefyd wedi cynnwys adolygiad manwl o'r systemau a'r prosesau sydd gennym ar waith i reoli'r Cyngor a monitro'r gwaith o gyflawni.

Yn gyffredinol, mae'r adroddiad hwn yn dangos, er gwaethaf yr heriau sylweddol ac amrywiol yr ydym wedi'u hwynebu dros y flwyddyn ddiwethaf – yn anad dim yr argyfyngau parhaus o ran costau byw a thai, galw cynyddol ar draws gwasanaethau, a phwysau ariannol cymhleth – rydym wedi parhau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i drigolion Caerdydd.

Rydym wedi darparu addysg dda i blant ledled y ddinas, a ddangoswyd gan ein lefelau cyrhaeddiad TGAU sy'n parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, ac rydym wedi cyflawni newid sylweddol yn y cydbwysedd gofal i blant a phobl ifanc drwy ehangu ein gwasanaeth maethu mewnol.

Dros y flwyddyn ariannol rydym wedi gostwng nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd, er bod heriau'n parhau, ac mae ein rhaglen adeiladu tai yn parhau i ddatblygu, gyda dros 1,100 o gartrefi newydd yn cael eu darparu er gwaethaf amodau heriol y farchnad.

Rydym wedi cymryd camau ystyrlon i leihau ôl troed carbon y Cyngor, ac mae'r allyriadau carbon gweithredol uniongyrchol wedi gostwng 11.7% ers 2019/20, ac rydym wedi gwneud cynnydd ar drafnidiaeth gyhoeddus a chynlluniau teithio llesol.

Ar ben hynny, rwy'n falch ein bod unwaith eto wedi cael ein henwi ymhlith y 100 o gyflogwr gorau ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall – yr awdurdod lleol sydd â'r safle uchaf yng Nghymru – ac yn parhau i wneud cynnydd da wrth weithredu argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol.

Serch hynny, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cydnabod yr heriau sylweddol yr ydym yn eu hwynebu, a'r meysydd y mae angen eu gwella.

Mae'r galw am wasanaethau'r Cyngor yn parhau i gynyddu, yn enwedig yn y Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a Thai. Mewn gofal cymdeithasol, er gwaethaf camau ataliol effeithiol, mae cymhlethdod achosion yn cynyddu, ac mae cost gwasanaethau yn parhau i gynyddu. Yn yr un modd, mae ysgolion yn wynebu heriau parhaus wrth ddychwelyd lefelau presenoldeb disgyblion i lefelau cyn y pandemig ac mae ymateb i'r nifer cynyddol o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn rhoi pwysau sylweddol ar y system ysgolion.

Ar ôl datgan argyfwng tai, mae hwn yn parhau i fod yn fater hollbwysig. Gyda dros 8,000 o aelwydydd ar restr aros tai'r Cyngor ar hyn o bryd, y gost gynyddol o rentu yn y sector preifat a phrinder tai fforddiadwy, mae hyn yn creu pwysau sylweddol ar draws ystod o wasanaethau'r Cyngor.

Ac er bod ein gweithlu'n parhau i fod yn un o'n hasedau mwyaf, mae materion recriwtio a chadw staff mewn rhai gwasanaethau yn parhau i fod yn her.

Fel awdurdodau lleol ledled y wlad, mae gwydnwch ariannol yn parhau i fod yn faes ffocws os ydym am barhau i ddarparu'r gwasanaethau sy'n hanfodol i bobl a chymunedau Caerdydd. Wedi'i yrru gan gymhlethdod cynyddol a maint y galw ar ein gwasanaethau, pwysau chwyddiant a chostau uwch, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, gyda bwlch cyllidebol rhagamcanol o £49.7 miliwn ar gyfer 2025/26, a £147.8 miliwn dros y tymor canolig.

I grynhoi, mae'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad teg a chytbwys, sy'n ein galluogi i nodi lle mae cynnydd yn cael ei wneud a nodi meysydd lle mae angen ymyrraeth i fynd i'r afael â'r heriau.

Fel bob amser, rwy'n ddiolchgar am ymrwymiad ac ymroddiad holl staff y Cyngor, i gyd-aelodau etholedig ac i'r partneriaid rydym yn gweithio gyda nhw i wneud Caerdydd yn ddinas gryfach, decach a gwyrddach.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd dros y flwyddyn i ddod.



**Y Cynghorydd Huw Thomas,**
Arweinydd Cyngor Caerdydd

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 2 | **Cyflwyniad yr Arweinydd** |
| 5 | **Ynglŷn â'r Adroddiad hwn** |
| 10 | **Asesiad Cyffredinol** |
| 14 | **Amcan Lles 1: Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu** |
| 22 | **Amcan Lles 2: Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn** |
| 28 | **Amcan Lles 3: Cefnogi pobl allan o dlodi** |
| 36 | **Amcan Lles 4: Cymunedau diogel, hyderus a grymus** |
| 44 | **Amcan Lles 5: Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru** |
| 48 | **Amcan Lles 6: Caerdydd Un Blaned** |
| 58 | **Amcan Lles 7: Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus** |

# Ynglŷn â'r Adroddiad hwn

## Beth yw'r Adroddiad Lles Blynyddol?

Diben yr Adroddiad Lles Blynyddol yw rhoi hunanasesiad diwedd blwyddyn o berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei Amcanion Lles ar gyfer 2023/24. Mae'r Amcanion Lles hyn, gan gynnwys y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i'w cyflawni, a sut bydd perfformiad yn cael ei fesur, wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2023-26:

1. **Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu**
2. **Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn**
3. **Cefnogi pobl allan o dlodi**
4. **Cymunedau diogel, hyderus a grymus**
5. **Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru**
6. **Caerdydd Un Blaned**
7. **Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus**

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol hwn yn ffrwyth proses hunanasesu gynhwysfawr, fel y nodir isod, ac yn tynnu ar berfformiad gwasanaeth, llywodraethu a risg, adnoddau a ffynonellau eraill o wybodaeth am berfformiad a ddarperir ar gyfer pob Amcan Lles: Mae pob pennod o'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad strategol fesul Amcan Lles, ynghyd â chrynodeb o lwyddiannau, heriau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Mae'r dadansoddiad sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Lles Blynyddol (a'r Asesiad Perfformiad Canol Blwyddyn) yn elfen ganolog o bennu blaenoriaethau a chamau gweithredu'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod, sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2024-27.

Wrth gynnal asesiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn, mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac mae cyhoeddi'r adroddiadau'n sicrhau bod y Cabinet yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni eu hagenda polisi, a pherfformiad gwasanaethau statudol.

## Gofynion Statudol

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn diwallu gofynion statudol canlynol y Cyngor:

- **Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu a chyhoeddi Amcanion Lles, cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny a chyhoeddi datganiad ynghylch Amcanion Lles. Caiff y dyletswyddau hyn eu cyflawni trwy broses Cynllunio Corfforaethol y Cyngor. Hefyd, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol o'r cynnydd, sy'n cael ei wneud trwy'r Adroddiad Lles Blynyddol. Elfennau craidd o'r Ddeddf yw'r **Egwyddor Datblygu Cynaliadwy** a'r **Pum Ffordd o Weithio.** Y rhain yw: hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Mae'r adroddiad hwn yn asesu i ba raddau y mae'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Pum Ffordd o Weithio wedi'u cymhwyso wrth gyflawni Amcanion Lles y Cyngor.

•**Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod pob Cyngor yng Nghymru yn parhau i adolygu, trwy hunanasesiad, i ba raddau y mae'n bodloni ei "ofynion perfformiad" ac yn cyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau ei hunanasesiad unwaith bob blwyddyn ariannol. Yn benodol, mae'n rhaid i'r Cyngor ***gynnal adolygiad o'i allu i ddefnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.***

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol hwn, a luniwyd trwy'r broses hunanasesu a amlinellir isod, yn nodi casgliadau'r Cyngor ynghylch i ba raddau y mae wedi bodloni'r gofynion perfformiad (hynny yw, arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan ddefnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, a'i fod yn llywodraethu'n effeithiol i sicrhau'r uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Diwallu ein gofynion statudol**

Mae crynodeb o'r gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â chynllunio a chyflawni wedi'i nodi isod.

| Deddf | Gofyniad Cynllunio a Pherfformiad | Trefniadau Cydymffurfio |
|---|---|---|
| Deddf Llesiant | Pennu a chyhoeddi Amcanion Lles | Cwblhawyd trwy gyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol |
| | Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny | Cwblhawyd trwy gyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol |
| | Cyhoeddi datganiad am yr Amcanion Lles | Cwblhawyd trwy gyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol |
| | Cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol ac adolygu'r Amcanion Lles | Cwblhawyd drwy gyhoeddi Adroddiad Lles Blynyddol 2023/24 |
| | Cyhoeddi ei ymateb i unrhyw argymhelliad a wnaed gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Heb dderbyn dim, hyd yn hyn. |
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau | Cynnal adolygiadau o berfformiad: i ba raddau y mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, ac yn llywodraethu'n effeithiol i sicrhau'r uchod. | Cwblhawyd drwy gyhoeddi Adroddiad Lles Blynyddol 2023/24 |
| | Ymgynghori ar berfformiad: gyda phobl leol, staff, undebau llafur a phartneriaid | Cwblhawyd, gan gyfeirio at ganfyddiadau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Lles Blynyddol 2023/24 |
| | Adrodd ar berfformiad: llunio adroddiad hunanasesu bob blwyddyn, sy'n cynnwys asesiad o berfformiad (gwasanaeth, cyllid, llywodraethu) a nodi camau gweithredu i wella | Cwblhawyd drwy gyhoeddi Adroddiad Lles Blynyddol 2023/24 |
| | Trefnu asesiad perfformiad panel ac ymateb i adroddiad yr asesiad perfformiad panel | I'w gwblhau yn ystod cylch llywodraeth leol 2022-27 |

Mae'r Cyngor o'r farn, drwy gyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol a'i Adroddiad Lles Blynyddol, **ei fod cyflawni'r dyletswyddau statudol perthnasol a restrir uchod.**

Mewn ymateb i'r newid yn y disgrifiad o'r Nod Lles cenedlaethol, 'Cymru Lewyrchus', ac fel rhan o'i asesiad perfformiad diwedd blwyddyn, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o'i Amcanion Lles. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn fodlon â'r saith amcan lles fel y maent wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

## Sut mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ddatblygu?

Mae'r asesiad o'r perfformiad sydd yn yr Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ddatblygu trwy broses drylwyr o hunanasesu sy'n cynnwys arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol y Cyngor, gan dynnu ar ystod eang o ffynonellau gwybodaeth am berfformiad.

**Ffynonellau Gwybodaeth am Berfformiad**

Mae ffynonellau gwybodaeth am berfformiad sy'n cyfrannu at yr asesiad perfformiad a geir yn yr Adroddiad Lles Blynyddol yn cynnwys:

- **Perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Cyngor** – Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys cyfres o ddangosyddion perfformiad sy'n mesur y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Amcanion Lles. Lle bo hynny'n berthnasol, pennir targedau yn erbyn y dangosyddion perfformiad hyn i ddangos lefel y llwyddiant a ddymunir. Neilltuir statws Coch Melyn Gwyrdd i ddangosyddion perfformiad: **Gwyrdd** lle mae'r dangosydd yn bwrw'r targed neu'n uwch, **Melyn** lle mae'r canlyniad o fewn 10% o'r targed, a **Choch** lle mae'r canlyniad ymhellach na 10% o'r targed.

- **Cynnydd yn erbyn y camau ym mhob Amcan Lles** - Mae pob Amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys set o 'gamau' neu gamau gweithredu. Mae monitro cynnydd y camau hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r hyn a gyflawnwyd a lle mae angen mwy o waith.
  Gellir cymharu'r Perfformiad Diwedd Blwyddyn yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a chamau'r Cynllun Corfforaethol ar Ddangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol y Cyngor.

- **Perfformiad yn erbyn dangosyddion canlyniad dinas gyfan** – Cytunwyd ar gyfres o ddangosyddion canlyniad dinas gyfan ar gyfer pob Amcan Lles â phartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Cyngor. Gellir cyrchu'r rhain drwy Ddangosfwrdd y Ddinas, sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am dueddiadau'r boblogaeth a demograffeg y ddinas.

- **Ymgynghori ac Ymgysylltu** – Mae gan y Cyngor nifer o ddulliau ymgynghori ac ymgysylltu sefydledig fel yr Arolwg Holi Caerdydd blynyddol i ddinasyddion, yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb a'r Arolwg Dinas sy'n Dda i Blant, yn ogystal ag arolygon ac ymarferion ymgynghori eraill a gynhelir yn ystod y flwyddyn sy'n rhoi cyfle i drigolion, busnesau a rhanddeiliaid dinesig eraill rannu eu barn ar amrywiaeth eang o wasanaethau a chynlluniau'r Cyngor. Yn ogystal, mae Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth a Chwynion y Cyngor yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar le mae dinasyddion Caerdydd yn meddwl bod angen i'r Cyngor wella. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol 'ansoddol' sy'n ymwneud â bodlonrwydd dinasyddion â gwasanaethau, ac mae canfyddiadau'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu yn rhan bwysig o brosesau hunanasesu, datblygu polisi a phennu cyllidebau y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Adroddiad Trosolwg Ymgyngoriadau blynyddol, sy'n cyfuno canfyddiadau amrywiaeth o arolygon ac ymarferion ymgysylltu â dinasyddion a gynhaliwyd gan y Cyngor a'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus.

- **Monitro Cyllid** – Nod Adroddiad Alldro 2023/24 y Cyngor yw hysbysu am sefyllfa ariannol y Cyngor mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 ac mae ei ganfyddiadau yn cyfrannu at yr asesiad a geir yn yr Adroddiad Lles Blynyddol.

- **Llywodraethu** – Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n llywio ac yn rheoli'r Cyngor, a'r modd a ddefnyddia i roi cyfrif i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn nodi asesiad o fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor.

- **Risg** – Mae cyflawni amcanion yn gofyn am reoli risgiau yn aml ar lefelau gweithredol a strategol, yn enwedig yn yr amgylchedd allanol deinamig y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo. Mae Adroddiad Risg diwedd blwyddyn y Cyngor, a'i Gofrestrau Risgiau Corfforaethol a Chyfarwyddiaeth, yn rhoi trosolwg o'r risgiau presennol a'r camau gweithredu sydd ar waith i'w lliniaru.

- **Y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** – Mae'r Cyngor yn ymateb i faterion ac argymhellion sy'n cael eu codi gan y Pwyllgorau, sy'n helpu i lywio datblygu polisi a gwella perfformiad.

- **Adroddiadau Archwilio** – Mae'r Cyngor yn destun nifer o archwiliadau gan gyrff rheoleiddio, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn (Addysg) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae eu canfyddiadau'n helpu'r Cyngor i asesu meysydd perfformiad cryf, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen gwella.

## Y Broses Hunanasesu

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ddatblygu drwy ymgysylltu â chyfarwyddwyr a thrwy broses hunanwerthuso, sicrwydd a herio. Mae'r broses yn cynnwys rolau uwch ar gyfer y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r broses hon yn cynnwys:

- Hunanwerthusiad gan y gyfarwyddiaeth o berfformiad gwasanaeth, caffael adnoddau, a heriau a blaenoriaethau llywodraethu, gan ateb y cwestiynau canlynol:
    - Beth sy'n mynd yn dda?
    - Beth yw'r risgiau a'r heriau allweddol sy'n wynebu eich gwasanaethau?
    - Beth yw'r camau nesaf?

- Sesiynau her a sicrwydd perfformiad a chyllideb i'w cynnal gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 gyda phob Cyfarwyddwr i ystyried canfyddiadau hunanasesiad ei gyfarwyddiaeth.

- Sesiwn cynnydd a pherfformiad gyda'r Cabinet ac Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor lle mae'r Prif Weithredwr yn rhoi asesiad strategol o berfformiad sefydliadol.

- Ystyriaeth o'r Adroddiad Lles Blynyddol drafft gan:
    - Y Panel Perfformiad, sy'n cael ei gynnull gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad, ac sy'n cynnwys Cadeiryddion pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor
    - Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
    - Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad
    - Y Cabinet, ar ôl derbyn ac ymateb i argymhellion pob Pwyllgor
    - Y Cyngor

Gellir gweld yr holl ohebiaeth gan y Panel Perfformiad a'r Pwyllgorau sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn ar wefan Cofrestr Penderfyniadau y Cyngor.

Nid yw gwella a gwerthuso perfformiad yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn unig. Caiff adroddiad hunanwerthuso canol blwyddyn ei ystyried gan y Cabinet, gan dynnu ar wybodaeth perfformiad ym mis 6 a chaiff perfformiad ei fonitro'n chwarterol trwy ddiweddariadau i'r camau a'r dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Corfforaethol. Ystyrir meysydd risg, cyllideb, archwiliadau, ymgynghori a pherfformiad i gyd yn gyfannol trwy gydol y flwyddyn i ysgogi gwelliant.

# Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da ar draws y rhaglen Cryfach, Tecach, Gwyrddach ac, yn gyffredinol, mae'n darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i bobl Caerdydd, gyda rhywfaint o ymarfer rhagorol, llawer o wasanaethau da a rhai sydd angen eu gwella ymhellach, gyda chefnogaeth fframwaith cadarn o ran perfformiad, llywodraethu a rheolaeth ehangach.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi chwarae rôl arwain effeithiol o ran gwasanaethau cyhoeddus, gan weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â chyfres o argyfyngau ac ar faterion cymhleth, amlasiantaethol, ac mae wedi parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector preifat a chyhoeddus i fwrw ymlaen â rhaglen adfywio uchelgeisiol mewn amodau economaidd heriol.

Mae'n gwneud hynny yn wyneb galw cynyddol a chymhleth, ochr yn ochr â phwysau costau a'r gweithlu, ac, wrth edrych tua'r dyfodol, bydd angen cau bwlch cyllidebol o £140 miliwn dros y pedair blynedd nesaf.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn dal i allu darparu gwasanaethau hanfodol i bobl Caerdydd, bydd angen i ni weithio ar draws y Cyngor a chyda phartneriaid i ailystyried ac, mewn rhai achosion, ailgynllunio'r gwasanaethau a ddarparwn, wrth sicrhau bod llywodraethu cadarn a rheolaeth dda ar waith fel sail ar gyfer gwella ar draws yr holl wasanaethau.

### Meysydd o Gynnydd a Gwelliant

Mae'r Cyngor yn parhau i ddangos patrwm eang o welliant o flwyddyn i flwyddyn ar draws ystod o wasanaethau'r cyngor, gyda chynnydd clir yn cael ei wneud wrth gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Corfforaethol yn 2023/24:

- Mae cyrhaeddiad disgyblion yng Nghaerdydd yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer TGAU graddau A* i C mewn cymwysterau CBAC sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.
- Mae Caerdydd wedi gweld newid amlwg yng nghydbwysedd gofal plant a phobl ifanc drwy waith i ehangu gwasanaeth maethu mewnol y Cyngor a gweithredu'r Strategaeth Llety. Mae mwy o blant yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth yr awdurdod lleol ac mewn darpariaeth breswyl fewnol.
- Yng nghyd-destun prinder cenedlaethol o weithwyr cymdeithasol profiadol, mae'r Cyngor wedi llwyddo i leihau nifer y swyddi gwaith cymdeithasol parhaol gwag i ddim ond 15.8% - y gyfradd isaf a gafwyd mewn blynyddoedd lawer, o'r gyfradd uchaf o 38.7% ym mis Mehefin 2020.
- Mae'r Model Asesydd Dibynadwy wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus, sy'n golygu y gall therapyddion galwedigaethol ragnodi gofal i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, gan ryddhau amser gweithwyr cymdeithasol a lleihau ôl-groniadau o achosion.
- Ers hynny bu gostyngiad parhaus yn nifer y bobl sy'n cysgu ar strydoedd y ddinas - o tua 50 o unigolion ym mis Tachwedd 2023 i 19 ym mis Mawrth 2024.
- Mae Prifysgol Caerdydd yn amcangyfrif bod y Cyflog Byw Gwirioneddol yn werth £83 miliwn i economi Caerdydd ers 2012.
- Mae cynnydd wedi cael ei gynnal gyda rhaglen adeiladu tai'r Cyngor er gwaethaf amodau anodd y farchnad, ac mae 1,110 o gartrefi newydd wedi cael eu darparu.
- Mae £5.4 miliwn wedi'i sicrhau mewn cyllid allanol i fuddsoddi mewn cymunedau lleol dros y deuddeg mis diwethaf.

- Yn 2023/24, chwaraeodd y Cyngor ran weithredol yn y gwaith o greu a diogelu dros 2,400 o swyddi.
- Yn gyffredinol, gostyngodd allyriadau carbon gweithredol 'uniongyrchol' y Cyngor 11.7% rhwng 2019/20 a 2022/23 (y data diweddaraf sydd ar gael). Ar ben hynny, gostyngodd allyriadau 'anuniongyrchol' y Cyngor sy'n gysylltiedig â chaffael 25.5% rhwng 2021/22 a 2022/23.
- Mae Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2023, sy'n cyflwyno data monitro a gasglwyd yn 2022, yn dangos nad oedd unrhyw ragoriadau yn yr amcanion ansawdd aer blynyddol na'r tymor byr ar gyfer $NO_2$ mewn unrhyw safle monitro awtomatig ac anawtomatig yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad.
- Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd o ran darparu rhaglen drawsnewidiol o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol – mae Cam 1 Cledrau Croesi Caerdydd wedi'i dendro'n llwyddiannus, mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer mesurau blaenoriaethu bysus, ac mae cyllid ar gael i wneud cynnydd ar Gam 2 yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer opsiynau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal ei le ymhlith y 100 o gyflogwyr gorau yn arolwg Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, yr Awdurdod Lleol sydd â'r safle uchaf yn gyffredinol yng Nghymru.
- Gwnaed cynnydd da o ran cyflawni argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol ac mae adroddiad cynnydd wedi'i rannu gyda'r Tasglu ym mis Gorffennaf 2024.

## Blaenoriaethau Gwella Corfforaethol

Mae Adroddiad Lles Blynyddol 2023/24 yn tynnu sylw at ystod o heriau perfformiad strategol, y mae angen iddynt barhau i fod yn destun ffocws corfforaethol dros y flwyddyn i ddod.

**Rheoli cynnydd parhaus yng nghymhlethdod a maint y galw ar draws gwasanaethau'r Cyngor:** Mae gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau galw cynyddol a chymhleth sy'n gofyn am ymateb parhaus ym mhob rhan o'r Cyngor ac yn amlasiantaethol, gan gynnwys:

- Mae gwasanaethau plant a phobl ifanc dan bwysau ac yn wynebu heriau o ganlyniad i effaith barhaus y pandemig, yr argyfwng costau byw ac effeithiau hirdymor cyni a thlodi. Mewn Addysg, bydd nifer o faterion rhyng-gysylltiedig, gan gynnwys patrymau presenoldeb a gwaharddiadau, oedi mewn datblygiad disgyblion ac yn y blynyddoedd cynnar, pryderon cynyddol yn ymwneud ag iechyd a lles emosiynol, a'r galw cynyddol o ran disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn gofyn am weithredu ar y cyd gan y Cyngor, partneriaid ac arweinwyr ysgolion dros y flwyddyn i ddod. Yn y Gwasanaethau Plant, er gwaethaf camau ataliol effeithiol, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a chost gwasanaethau cymorth a llety yn parhau i gynyddu. Mewn ymateb, bydd y Cyngor yn parhau i flaenoriaethu cyflawni'r strategaeth i newid cydbwysedd gofal, gan gynnwys cyflawni ei Strategaeth Llety i blant.

- Mae'r sector gofal cymdeithasol i oedolion yn parhau i wynebu pwysau parhaus drwy alw cynyddol a gofynion cynyddol gymhleth y gwasanaeth, gan gynnwys ar gyfer pobl hŷn ac ar gyfer carfannau o oedolion agored i niwed fel y rhai ag anableddau dysgu. Dros y flwyddyn i ddod, bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phartneriaid iechyd a chymunedol sy'n canolbwyntio ar helpu cymaint o bobl â phosibl i fyw'n annibynnol gartref.

- Mae nifer y bobl sy'n mynd yn ddigartref a'r galw am lety brys a dros dro wedi parhau i gynyddu, gyda rhestrau aros uchel ar draws pob porth digartref. Mae dros 8,000 o aelwydydd bellach ar restr aros tai y Cyngor ac mae'r gyfradd rhentu yn y sector rhentu preifat ar lefelau digynsail. Mae prinder tai o bob deiliadaeth yn creu pwysau ac yn cyfrannu at bwysau ariannol ar draws llawer o wasanaethau'r Cyngor (gan gynnwys Gwasanaethau Oedolion a Phlant, uchod). Mae'r angen i ehangu mynediad at dai yn gyflym, drwy adeiladu a sicrhau tai fforddiadwy ychwanegol a thai sydd wedi'u teilwra i gefnogi byw'n annibynnol, yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol.

**Sicrhau gwasanaeth parhaus a gwydnwch ariannol:** Mae'r Cyngor yn wynebu heriau cyllidebol sylweddol yn awr ac yn y tymor canolig. Mae Cyllideb 2025/26 ac Adroddiad Diweddaru Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a ystyriwyd gan y Cabinet a'r Cyngor ar 18 Gorffennaf 2024, yn nodi bwlch dangosol diwygiedig o £49.726 miliwn yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26 a bwlch o £147.784 miliwn yn y gyllideb ar draws cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), rhwng 2025/26 a 2028/29. Mae'r pwysau hyn yn deillio o gyfuniad o gymhlethdod cynyddol a maint y galw ar wasanaethau (gweler uchod), pwysau chwyddiant sy'n cael ei yrru gan gostau sy'n gysylltiedig â gweithwyr, costau nwyddau a chynwyddau a brynir gan y Cyngor (megis ynni, bwyd a thanwydd) a chost adeiladu, deunyddiau a gwasanaethau a gomisiynir.

**Pwysau'r gweithlu:** Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu amrywiaeth o heriau o ran y gweithlu, gan gynnwys heriau recriwtio a lefelau uchel o salwch mewn gwasanaethau penodol. Mae problemau recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn amlwg ar draws sawl gwasanaeth, sy'n effeithio ar gyflawni prosiectau ac ymrwymiadau penodol. Mae hyn yn arbennig o wir yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant, lle mae ymyriadau i ddatblygu dulliau wedi'u teilwra o recriwtio a chadw staff yn cael effaith gadarnhaol. Mewn ymateb i gyfraddau absenoldeb salwch uwch na tharged y Cyngor, mae cymorth targedig yn parhau i gael ei ddarparu ar gyfer gwasanaethau â chyfraddau absenoldeb uchel, yn enwedig o ran rheoli absenoldeb salwch hirdymor, ochr yn ochr ag ymyriadau cymorth iechyd a lles gwell i staff. Dros y flwyddyn i ddod, bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni Strategaeth y Gweithlu 2023-27, gan flaenoriaethu cynllunio'r gweithlu rhagweithiol, datblygu amgylchedd gwaith cefnogol ymhellach, rhoi pwyslais parhaus ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a rhaglen well o ymgysylltu â staff.

**Ymateb i faterion a risgiau newydd:** Yn ogystal â'r cynnydd parhaus yn y galw ar wasanaethau, mae'r Cyngor, ochr yn ochr â'i bartneriaid, wedi ymateb i nifer o risgiau a materion sylweddol, ond annisgwyl yn ystod y flwyddyn. Yn 2023/24, mae'r rhain wedi cynnwys rheoli effeithiau uniongyrchol yr argyfwng tai, ymateb a datblygu ymateb cymunedol i'r aflonyddwch sifil yn Nhreláі, a rheoli effaith gwasgaru ceiswyr lloches ar garlam. Ym mhob achos, lluniodd y Cyngor ymateb effeithiol, yn aml yn cynnwys gweithio ar draws gwasanaethau a chydweithio â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Wrth edrych ymlaen i'r dyfodol, rhaid i'r Cyngor barhau i ragweld ac ymateb, ar gyflymder ac mewn partneriaeth, i risgiau a materion newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg.


Mewn ymateb i'r galw a'r pwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor am y flwyddyn i ddod a thros y tymor canolig, mae Cabinet y Cyngor wedi cychwyn rhaglen gynhwysfawr o adolygiadau gwasanaeth a chyllideb gyda ffocws ar nodi cyfleoedd i hybu effeithlonrwydd dros y tymor byr ac i nodi sut mae angen i wasanaethau newid ac addasu i fod yn gynaliadwy dros y tymor canolig.



# Amcan Lles 1:
# Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

## Ein blaenoriaethau yn 2023/24 oedd:

- Dod yn Ddinas sy’n Dda i Blant
- Cefnogi adferiad addysg ar ôl y pandemig
- Parhau i wireddu gweledigaeth Caerdydd 2030 ar gyfer addysg a dysgu
- Symud y Cydbwysedd Gofal: lle
- Symud y Cydbwysedd Gofal: pobl
- Symud y Cydbwysedd Gofal: ymarfer
- Diogelu lles plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed



## Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor o'r farn bod cynnydd da wedi'i wneud o ran cyflawni ei ymrwymiadau i wneud Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu mewn cyd-destun lle mae plant a phobl ifanc, a'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt, yn wynebu heriau newydd a sylweddol oherwydd effaith barhaus y pandemig, yr argyfwng costau byw ac effeithiau hirdymor cyni a thlodi.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddangos gwelliant parhaus yn ansawdd ac effeithiolrwydd addysg yng Nghaerdydd, ac mae cyrhaeddiad disgyblion yn parhau i fod yn uwch, neu'n llawer uwch, na chyfartaledd Cymru, mae canlyniadau arolygon ysgolion yn dda, yn enwedig yn y sector cynradd, ac mae dull partneriaeth ar waith i gefnogi disgyblion ac ysgolion i fanteisio ar y cyfleoedd ehangach y gall Caerdydd eu cynnig. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos ag ysgolion, cymunedau, partneriaid gwasanaethau cyhoeddus a gyda phlant a phobl ifanc i ddatblygu ymatebion i ystod o heriau cymhleth a rhyng-gysylltiedig, gan gynnwys lefelau uchel o bresenoldeb a gwaharddiadau, oedi mewn datblygiad disgyblion a'r blynyddoedd cynnar, pryderon cynyddol yn ymwneud ag iechyd a lles emosiynol, a'r galw cynyddol gan ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn y Gwasanaethau Plant, mae Caerdydd wedi gweld newid amlwg yn y cydbwysedd gofal i blant a phobl ifanc drwy waith ar draws pob agwedd ar y gwasanaeth, gan gynnwys ehangu ei wasanaeth maethu mewnol, gwell cefnogaeth i weithwyr cymdeithasol a gweithredu'r Strategaeth Llety. Mae mwy o blant yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol a bydd darpariaeth breswyl fewnol yn arwain at ganlyniadau gwell i blant a chostau is i'r Cyngor. Er gwaethaf camau ataliol effeithiol, mae'r pwysau ar y Gwasanaethau Plant yn parhau i gynyddu, yn enwedig cymhlethdod y cymorth sydd ei angen ar lawer o blant a chost y cymorth a'r llety hwn. Felly, bydd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer 2025/26.

### Meysydd Cynnydd

- Caerdydd yw'r ddinas gyntaf ym Mhrydain i dderbyn statws Dinas sy'n Dda i Blant gan UNICEF.
- Mae cyrhaeddiad disgyblion yng Nghaerdydd yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer TGAU graddau A* i C mewn cymwysterau CBAC sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.
- Mae gweithredu'r Strategaeth Llety wedi galluogi'r Cyngor i ofalu am fwy o blant sy'n derbyn gofal gan ddefnyddio darpariaeth fewnol yn hytrach na thrwy ddefnyddio darparwyr allanol.
- Mae Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) wedi cydnabod yr heriau uchel a chymhleth a wynebir gan y Gwasanaethau Plant, Addysg, y Bwrdd Iechyd, a'r Heddlu, a chanmolodd ffocws y Cyngor ar ddiogelu a gweithio mewn partneriaeth. Nododd yr adroddiad hefyd fod diogelu disgyblion yn flaenoriaeth uchel yn ysgolion Caerdydd a'r Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD), gan nodi eu bod yn llefydd diogel i ddisgyblion ddysgu; mae ysgolion a'r UCD yn adnabod disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac yn gallu ymateb i'w hanghenion, a'u diwallu.
- Yng nghyd-destun prinder cenedlaethol o weithwyr cymdeithasol profiadol, mae'r Cyngor wedi llwyddo i leihau nifer y swyddi gwaith cymdeithasol parhaol gwag yn y Gwasanaethau Plant i ddim ond 15.8% - y gyfradd isaf a gafwyd mewn blynyddoedd lawer, o'r gyfradd uchaf o 38.7% ym mis Mehefin 2020.

## Meysydd o Her a Risg

- Mae ysgolion yn parhau i deimlo effaith hir y pandemig, sydd wedi effeithio ar batrymau presenoldeb a gwaharddiadau, yn ogystal â nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref.
- Er bod 121 o leoedd ysgol arbenigol newydd ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'u creu yn ystod y flwyddyn, a bwriedir darparu 120 o leoedd eraill erbyn mis Medi 2024, nid yw'r capasiti ychwanegol hwn wedi ateb y galw, gan arwain at fwy o ddysgwyr yn cael eu rhoi mewn darpariaeth fwy costus er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r diffyg yn y ddarpariaeth arbenigol yn rhoi galw sylweddol a phwysau cyllidebol ar ysgolion y ddinas a gwasanaethau eraill.
- Mae ysgolion yn wynebu heriau cyllidebol sylweddol yn awr ac yn y hirdymor, wedi'u gyrru gan newidiadau demograffig yn y ddinas a'r lefelau uchaf erioed o chwyddiant. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer yr ysgolion sydd mewn diffyg sydd bellach yn 46 o ysgolion. Er mwyn ymateb i'r arbedion sylweddol y bydd angen i'r Gyfarwyddiaeth a'r ysgolion eu gwneud, mae adolygiadau gwasanaeth yn cael eu comisiynu gan gynnwys Gwasanaethau Arlwyo Ysgolion a Thrafnidiaeth ADY.
- Er bod £39.5 miliwn wedi'i wario yn 2023/24 ar gynnal a chadw ysgolion, i fyny o £25 miliwn yn 2022/23, mae risg sylweddol o adeiladau'n methu yn parhau mewn rhai ysgolion oherwydd cyflwr gwael nifer ohonynt, sydd mewn perygl o beidio â bodloni safonau iechyd a diogelwch, a'r adnoddau ariannol cyfyngedig sydd ar gael i fynd i'r afael â'r materion.
- Sicrhau gwelliant parhaus mewn ysgolion yng nghyd-destun heriau cyllidebol, mwy o alw yn sgil y pandemig, a chyflawni Diwygiadau Cenedlaethol yn y Cwricwlwm ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Er gwaethaf y Strategaeth Llety sy'n arwain at leihau'r gwariant ar leoliadau allanol mae Gwasanaethau Plant yn dal i wynebu pwysau cyllidebol acíwt, wedi'i yrru gan alw mawr a chymhlethdod cynyddol achosion, gan arwain at leoliadau plant mwy costus.
- Mae penderfyniadau polisi cenedlaethol yn rhoi straen ychwanegol ar y Gwasanaethau Plant gan gynnwys sicrhau cydymffurfiaeth ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal ac mae effaith y Strategaeth Genedlaethol Awtistiaeth hefyd yn rhoi galw ychwanegol ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau.

## Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol** | **Camau**



Mae'r camau a'r DPAau sydd wedi'u marcio'n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

## Dinas sy'n Dda i Blant

Caerdydd oedd y ddinas gyntaf ym Mhrydain i ennill statws Dinas sy'n Dda i Blant gan UNICEF gyda'r cam olaf o asesu yn dechrau ym mis Ebrill 2023, cydnabyddiaeth ffurfiol yn cael ei derbyn ym mis Medi, ac yna cytundeb ffurfiol ym mis Hydref. Cytunwyd ar gynllun cynaliadwyedd gydag UNICEF sy'n amlinellu rhaglen waith am y tair blynedd nesaf. Er mwyn cefnogi uchelgais Caerdydd i ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant, mae'r dull Ysgolion sy'n Parchu Hawliau wedi parhau i gael ei gyflwyno, gyda mwy o ysgolion yn cael eu hachredu drwy gydol y flwyddyn, ac mae staff y Cyngor wedi gorfod cwblhau hyfforddiant Hawliau Plant.

Mae dros dri chwarter ysgolion Caerdydd (76.6%) bellach wedi'u dynodi'n Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF. O'r 98 ysgol hyn, mae 51 (54.1%) wedi derbyn statws Arian neu Aur, sydd ychydig yn brin o darged y Cyngor (55%) ar gyfer ysgolion Arian ac Aur. Ar ddiwedd 2023/24, mae 72% o staff y Cyngor wedi cwblhau'r hyfforddiant Hawliau Plant yn erbyn targed o 85% ac i wella cydymffurfiaeth ymhellach yn y flwyddyn i ddod mae cwblhau hyfforddiant gorfodol wedi'i gysylltu â pherfformiad staff unigol trwy eu hadolygiad personol blynyddol. Nid yw'r Cyngor wedi gallu mesur dau ddangosydd perfformiad yn 2023/24 yn ymwneud â phrofiadau plant a phobl ifanc mewn ysgolion, ac a ydynt yn ymwybodol o'u hawliau ai peidio, gan na chynhaliwyd yr arolwg sy'n casglu'r canlyniadau hyn. Fodd bynnag, bydd y mesurau hyn yn dod o holiadur y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (RhYIY) o 2024/25 ymlaen.

## Adfer Addysg a Gweledigaeth Caerdydd 2030

Mae'r Cyngor yn parhau i ddangos gwelliant parhaus yn ansawdd ac effeithiolrwydd addysg yng Nghaerdydd. Roedd canlyniadau cyrhaeddiad disgyblion yn uwch, neu'n llawer uwch, na chyfartaledd Cymru ar gyfer canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn Haf 2023 ar gyfer canlyniadau A* i A ac A* i C yng nghymwysterau CBAC. Mae canlyniadau arolygon ysgolion yn dda, yn enwedig yn y sector cynradd. O'r 26 ysgol a arolygwyd yn 2023/24, gyda 22 adroddiad wedi'u cyhoeddi, mae un ysgol wedi mynd i Adolygiad Estyn ac un i Welliant Sylweddol. Gofynnwyd i wyth gyhoeddi Astudiaethau Achos Ymarfer Diddorol neu Arloesol i'w lledaenu ar wefan Estyn. Mae tair ysgol gynradd yn destun camau dilynol gan Estyn o'r flwyddyn flaenorol 2022/23 (dwy yn Adolygiad Estyn, un ohonynt yn ysgol Ffederal) ac un mewn Mesurau Arbennig.

Mae'r Cyngor wedi symud ymlaen gyda'r gwaith o gyflawni Gweledigaeth Caerdydd 2030, er bod y gwaith o adnewyddu ac ail-lansio'r strategaeth hon wedi'i ohirio i fynd i'r afael â heriau mwy uniongyrchol gan gynnwys pwysau cyllidebol, darparu lleoedd mewn ysgolion, a chynyddu capasiti ADY. Bydd y weledigaeth hirdymor yn cael ei chwblhau yn 2024/25. Mae gwaith yn parhau i gyflawni'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys cymeradwyo Strategaeth Buddsoddi Addysg 2024-2033. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno'r ysgol ddeuol gyntaf yng Nghroes-wen a chytuno i ddyblu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg o 192 i 420 i wasanaethu Cathays, Gabalfa, a'r wardiau cyfagos. Yn ogystal â buddsoddiadau a gyflawnwyd drwy Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a grantiau eraill, yn 2023/24, gwariodd y Cyngor £39.5 miliwn ar wneud gwaith cynnal a chadw, atgyweirio a gwella mewn ysgolion Caerdydd. Er gwaethaf hyn, mae risgiau sylweddol yn gysylltiedig â chyflwr yr ystâd ysgolion.

Er bod y Cyngor wedi darparu buddsoddiad sylweddol i seilwaith TGCh mewn ysgolion, mae'r Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion TGCh yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd oherwydd gorwariant yn ystod y flwyddyn. Mae gwerth am arian ac alinio i'r cwricwlwm newydd yn ystyriaethau allweddol yn yr adolygiad hwn, sy'n cael ei ystyried gyda phenaethiaid.

Mae Addewid Caerdydd yn parhau i gael ei gyflawni'n effeithiol, ac mae nifer o weithdai, digwyddiadau, sesiynau hyfforddi, a chyfleoedd profiad gwaith yn cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Caerdydd. Mae'r rhaglen waith hefyd wedi cynnwys nifer o weithgareddau sy'n cefnogi plant mwy agored i niwed yn benodol, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal neu'r rhai ag anabledd. Mae Tîm Cwricwlwm Caerdydd wedi cryfhau ei gynnig i gefnogi ysgolion i ddod â'r cwricwlwm yn fyw. Mae 1,500 o blant a phobl ifanc yn ymwneud â'r rhaglen Pasbort i'r Ddinas, ac mae 50 ohonynt yn Blant sy'n Derbyn Gofal. Cynigiwyd cyfleoedd dysgu gwell yn gysylltiedig â'r celfyddydau mynegiannol a'r diwydiannau creadigol, Caerdydd Un Blaned, STEM, y Gynghrair Lego Ysgolion Flynyddol, a welodd 30 o ysgolion yn cymryd rhan, Gwobr y Celfyddydau gyda UCAN Productions ar gyfer dysgwyr â nam ar eu golwg, a'r Prosiect Coed Hylif sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi parhau i gefnogi dysgwyr yn eu cyflawniadau a'u lles. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ôl-16 a darparu mentora ieuenctid i ymateb i anghenion pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae disgwyl i'r gwaith i ailstrwythuro'r Gwasanaeth Ieuenctid ddod i ben ym mis Rhagfyr 2024. Nod y model yw sicrhau cynnig gwaith ieuenctid cynaliadwy, effeithiol o ansawdd uchel yn y ddinas, gyda thimau ardal cryf wrth wraidd y gwaith, i ymateb i anghenion unigryw'r cymunedau unigol y maent yn eu gwasanaethu. Byddai'r timau ardal hyn yn cael eu lleoli yn yr ardaloedd o amddifadedd uchaf, gan adeiladu ar gynnig presennol Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, a byddent yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau ehangach i bobl ifanc yn eu hardaloedd. Mae ysgolion yn parhau i brofi pwysau a heriau sy'n cael eu gyrru gan effaith barhaus Covid-19 a newidiadau i broffil demograffig y ddinas. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Presenoldeb yn yr Ysgol:** Er ei fod yn gwella, mae lefelau presenoldeb yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder, gan nad ydyw wedi dychwelyd eto i'r lefelau cyn y pandemig. Mewn ysgolion cynradd, roedd presenoldeb yn 2022/23 yn 91.7%, o'i gymharu ag 88.87% yn 2021/22 a thua 95% cyn y pandemig. Mewn ysgolion uwchradd, roedd presenoldeb yn 88.20% yn 2022/23, o'i gymharu ag 86.03% yn 2022/21 a thua 94% cyn y pandemig. Nid yw canran yr absenoldeb parhaus (o dan y trothwy o 50%) mewn ysgolion uwchradd yn cyrraedd ei tharged ychwaith. Mewn ymateb, mae'r rhaglen ymgysylltu â disgyblion, rhieni ac ysgolion wedi cael ei chyflymu ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar y sefyllfa, gyda'r ffigurau ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 yn dangos gwelliant dros dro, gan gymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd cenedlaethol. Wrth symud ymlaen, mae'n bosibl y bydd presenoldeb disgyblion yn cael ei effeithio'n sylweddol heb gefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru gyda'r grantiau presenoldeb a'r cymorth ychwanegol a ddarperir mewn ysgolion.

- **Gwaharddiadau cyfnod penodol:** Mae gwaharddiadau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cynyddu yn y flwyddyn academaidd 2022/23. Mae'r cyfraddau hyn yn parhau i fod yn uwch mewn ysgolion uwchradd nag mewn ysgolion cynradd, gydag ysgolion uwchradd yn nodi cynnydd o tua 35% yn 2022/23. Mae'r gyfarwyddiaeth Addysg yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion i gefnogi'r rhai sydd â chyfraddau uchel o waharddiadau ac i gefnogi ysgolion ag ymddygiad disgyblion. Bu cynnydd hefyd yn nifer y disgyblion ar Gynlluniau Cymorth Bugeiliol (437 o ddisgyblion yn 2023/24 o'i gymharu â 400 o ddisgyblion yn 2022/23), a bydd rhai ohonynt yn cynnwys amserlen lai. Bydd y broses hon yn cael ei hadolygu yn 2023/24 i ddatblygu cynllun peilot newydd i'w gyflwyno mewn pum ysgol, gan gynnwys safonau cyson o ran cofnodi, a bydd hyfforddiant ac arweiniad yn cael eu rhoi ar waith.

- **Anghenion Dysgu Ychwanegol:** Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran bodloni gofynion y diwygiadau ADY newydd, gyda'r holl grwpiau blwyddyn penodedig yn cael eu trosglwyddo i'r system ADY yn unol â therfynau amser Llywodraeth Cymru, a disgwylir i'r holl ddysgwyr â datganiad fod wedi'u trosglwyddo erbyn diwedd mis Gorffennaf 2024. Mae bron i 4,000 o ddysgwyr yng Nghaerdydd ag anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd, ac mae angen lleoliad addysg arbenigol ar oddeutu 1,700 ohonynt. Trwy gydol y flwyddyn, crëwyd 121 o leoedd ADY newydd yn erbyn targed o 141. Mae 20 lle ychwanegol wedi'u cynllunio ar gyfer Ysgol Uwchradd y Dwyrain, ac 16 lle yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson, er bod y rhain wedi'u gohirio oherwydd bod y manylebau'n dal i gael eu cytuno. Ym mis Gorffennaf 2023, cymeradwyodd y Cabinet gynlluniau i symud ymlaen gyda phrosiectau i gynyddu cyfanswm nifer y lleoedd ADY, sy'n cwmpasu ystod o oedrannau ac anghenion cymhleth, i 1,755. Er bod y cyflenwad yn agos at y targed blynyddol, nid yw creu'r lleoedd newydd hyn yn ateb y galw cynyddol. Mae hyn, yn ei dro, yn effeithio ar nifer y dysgwyr sy'n cael eu rhoi mewn darpariaeth fwy costus neu sydd allan o'r ysgol heb fynediad at ddarpariaeth addysg briodol. Mae nifer y dysgwyr mewn darpariaeth lleoliadau annibynnol (nad ydynt yn Awdurdod Lleol Caerdydd) wedi cynyddu o 131 ar ddiwedd 2022/23 i 216 ar ddiwedd 2023/24, gan arwain at fwy o bwysau cyllidebol.  Wrth i nifer y disgyblion yn y ddarpariaeth ADY arbenigol gynyddu, mae hyn yn cynyddu cost cludiant o'r cartref i'r ysgol, yn enwedig mewn achosion lle mae'r ddarpariaeth y tu allan i Gaerdydd.

- **Datblygiad Disgyblion a'r Blynyddoedd Cynnar:** Mae cynnydd wedi bod yn nifer y plant sy'n dangos oedi datblygiadol ar adeg dechrau'r ysgol. Mae ysgolion Caerdydd wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion oedran derbyn yr aseswyd bod ganddynt anawsterau iaith oddefol difrifol ar gyfradd uwch (15%) na chyfartaledd y DU (12%), ac yn uwch na'r gyfradd cyn y pandemig (11%).

- **Iechyd a Lles Emosiynol:** Mae'r cynnydd yn nifer y plant ag anghenion iechyd a lles emosiynol yn parhau i fod yn her barhaus. Ar hyn o bryd mae 1,139 o ddysgwyr â Chynllun Datblygu Unigol ar gyfer anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol sy'n derbyn Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn eu hysgol. Mae amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar gael i gefnogi ysgolion i'w galluogi i ddatblygu eu cynnig ymyrraeth gynnar a'u Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol, gan gynnwys CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phlant yn eu Harddegau), Mewngymorth Iechyd Meddwl, Seicoleg Addysgol, a'r Timau Addysgu Arbenigol. Rhoddodd y tîm Iechyd a Lles Emosiynol gymorth a chyngor mewn perthynas â 1,418 o ddysgwyr prif ffrwd yn 2023/24. Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig ystod o ymyriadau cynnar ynghyd â darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn ysgolion, gan gynnwys:

o Gweithredu 'Fframwaith ar Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Iechyd Meddwl a Lles (DYGYIMLl)'. Mae 80% o'r holl ysgolion a gynhelir ar y trywydd iawn i roi cynllun gweithredu ar waith erbyn mis Mawrth 2025.

o Dull 'Ffynnu', sy'n cynnig dull seiliedig ar drawma ysgol gyfan/lleoliad cyfan i wella iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc. Mae 64 (53%) o ysgolion cynradd a 13 (59%) o ysgolion uwchradd bellach yn defnyddio'r dull hwn.

o Defnyddio Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (CCLlE) mewn ysgolion. Mae'r cynorthwywyr hyn yn gynorthwywyr addysgu mewn ysgolion sydd wedi'u hyfforddi gan Seicolegwyr Addysg i ddatblygu a darparu rhaglenni cymorth unigol i ddiwallu anghenion lles emosiynol plant a phobl ifanc. Ar hyn o bryd mae 86 o ysgolion yn defnyddio CCLlE fel ymyrraeth.

o Mae gan lawer o ysgolion drefniadau dosbarth bach yn seiliedig ar egwyddorion anogaeth, at ddibenion dysgwyr sydd angen cymorth ac ymyrraeth wedi'u cynllunio'n rheolaidd.

- **Addysg Ddewisol yn y Cartref:** Bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref yn dilyn y pandemig. Mae'r garfan yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu o ran maint rhwng 2019 (219 o blant) a 2024 (543 o blant), er bod cynnydd tebyg wedi eu gweld ledled Cymru. Gorbryder sy'n cael ei nodi fel y rheswm dros hyn mewn nifer o achosion. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i gysylltu â theuluoedd sy'n addysgu gartref unwaith y flwyddyn o leiaf. Mae hyn er mwyn sicrhau bod addysg addas ac effeithlon yn cael ei darparu sy'n berthnasol i anghenion a gallu'r plentyn, a bod y plentyn yn dangos cynnydd. Rhennir gwybodaeth gyda theuluoedd am gael gafael ar gymorth lles a lle bo'n bosibl, anogir plant i ddychwelyd i addysg sy'n cael ei darparu gan yr awdurdod lleol.

- **Canlyniadau Ôl-ysgol:** Mae canlyniadau a chyrhaeddiad ôl-ysgol yn bryder i'r garfan Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY), gan mai dim ond 82% ohonynt sy'n trosglwyddo'n llwyddiannus i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant, o'i gymharu â tharged o 92%; y canlyniad isaf dros y pum mlynedd diwethaf. Er yn gwella, mae cyfran y plant sy'n derbyn gofal sy'n trosglwyddo'n llwyddiannus i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant yn dal yn is na'r targed ar 89%. Mae hyn yn cael ei gymharu â chyfanswm y garfan o blant sy'n gadael ysgol, y mae 97.7% ohonynt yn trosglwyddo'n llwyddiannus, er bod hyn hefyd yn is na'r targed o 98.5%.

Mae ysgolion yn wynebu heriau cyllidebol sylweddol, wedi'u gyrru gan y lefelau uchaf erioed o chwyddiant sydd wedi dibrisio grym gwario er bod y Cyngor yn darparu cyllid i ysgolion sy'n uwch na lefel setliad Llywodraeth Cymru. Mae her y gyllideb hefyd yn cael ei sbarduno gan alw cynyddol gymhleth, a chynnydd mewn lleoedd gwag ar draws system ysgolion y ddinas. Ar ddiwedd 2023/24, roedd y gyfarwyddiaeth Addysg wedi gorwario £1.257 miliwn. Mae'r prif bwysau yn cynnwys lleoliadau ADY, Cludiant i'r Ysgol, y gwasanaeth Technoleg Addysg, a diffygion incwm ar gyfer y Ganolfan Gweithgareddau Awyr Agored.

Dros y tymor canolig, mae disgwyl i'r cwymp mewn cyfraddau geni a ragwelir ledled y ddinas arwain at gynnydd yn nifer y lleoedd gwag ar draws ysgolion yng Nghaerdydd. Bydd y tueddiadau demograffig hyn yn dod â phwysau ariannol ychwanegol i sawl ysgol yn y tymor byr, a dros y tymor canolig rhagwelir y bydd yn effeithio ar gynaliadwyedd ariannol y system ysgolion ehangach.

### Newid cydbwysedd gofal a diogelu lles plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed

Drwy gydol 2023/24 mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni ei Strategaeth Ymdrechu am Ragoriaeth mewn Gwasanaethau Plant, gan arwain at newid cadarnhaol amlwg yng nghydbwysedd gofal i blant a phobl ifanc. Ymhlith y cynlluniau mae paratoi ar gyfer gweithredu'r model y Lle Cywir a rhaglen hyrwyddo o'r newydd sy'n annog unigolion i ddod yn ofalwyr maeth i Faethu Cymru Caerdydd. Erbyn diwedd y flwyddyn, bu gostyngiad yng nghyfran y plant sy'n derbyn gofal y tu allan i'w teuluoedd, sydd fel arfer yn fwy costus ac ymhellach i ffwrdd na mathau eraill o leoliadau, a chynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu maethu gan ofalwyr maeth yr awdurdod lleol, yn ogystal â chynnydd yn nifer y plant a ddychwelwyd adref yn ddiogel.

Cynhaliwyd Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), a Phrif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn)[1]. Amlygodd yr arolygiad y galw uchel a chymhlethdod parhaus yr achosion sy'n wynebu'r Gwasanaethau Plant a chanmolodd y ffocws cadarnhaol ar ddiogelu yn wyneb heriau'r gyllideb a'r gweithlu. Canfu'r adroddiad hefyd fod trefniadau

---

[1] Adolygiad yr Arolygiaeth ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) yn cydnabod cryfderau yng Nghaerdydd (newyddioncaerdydd.co.uk)

partneriaeth ar draws y Cyngor a phartneriaid eraill yn effeithiol, a bod y Cyngor wedi dangos ffocws cadarnhaol ar ddiogelu, o fewn gwasanaethau rheng flaen yn ogystal ag ymhlith tîm rheoli ac arwain y Cyngor. Mae'r meysydd gwella a nodwyd wedi'u cynnwys mewn cynllun gweithredu a fydd yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a Bwrdd yr Hyb Diogelu Amlasiantaethol yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r galw cynyddol a chostau cynyddol ar gyfer lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal drwy ddarparu ei Strategaeth Llety. Nod y Strategaeth yw cynyddu'r ddarpariaeth breswyl fewnol i blant sy'n derbyn gofal drwy sicrhau eiddo ychwanegol yng Nghaerdydd, gan leihau dibyniaeth y Cyngor ar ddarparwyr allanol. Yn ogystal, mae prosesau gweithredol wedi'u gwella yn Nhîm Maethu y Cyngor i hyrwyddo maethu mewnol. Yn Chwarter 4, cafodd 134 o blant eu lleoli gyda gofalwyr maeth mewnol, gan ragori ar y targed o 130.


Mae cynyddu capasiti'r Cyngor i gynnig darpariaeth i blant sy'n derbyn gofal yn hanfodol wrth ymateb i'r sefyllfa gyllidebol heriol a wynebir gan y Gwasanaethau Plant. Ar ddiwedd 2023/24, roedd y Gwasanaethau Plant wedi gorwario £5.212 miliwn. Mae'r galw parhaus a'r pwysau costau yn sgil lleoliadau preswyl costus i blant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor, er gwaethaf camu darpariaeth i lawr yn llwyddiannus, wedi arwain at orwario yn erbyn ystod o leoliadau.

Mae dod o hyd i lety addas i blant a phobl ifanc, yn enwedig i'r rhai ag anghenion cymhleth, wedi bod yn heriol, gan fod nifer y lleoliadau gweithredol, a'u cost gyfartalog, wedi cynyddu trwy gydol y flwyddyn. Canran y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau a reoleiddir yng Nghaerdydd yw 58% yn erbyn targed o 60%, ac mae canran y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau a reoleiddir naill ai yng Nghaerdydd neu awdurdod lleol cyfagos yn 76% o gymharu â tharged o 80%.

Er bod y sector gofal cymdeithasol yn parhau i wynebu argyfwng gweithlu, mae cynllunio'r gweithlu o fewn Gwasanaethau Plant wedi helpu i leihau cyfraddau swyddi gweithwyr cymdeithasol gwag, gan wella gwydnwch gweithlu'r Cyngor a lleihau dibyniaeth ar staff asiantaeth, sy'n fwy costus. Yn Chwarter 4, dim ond 15.8% o swyddi gweithwyr cymdeithasol parhaol oedd yn wag, yn erbyn targed o 24% ac i lawr o tua 39% ym mis Mehefin 2020.

Yn ogystal â phwysau galw lleol, mae penderfyniadau polisi cenedlaethol yn achosi pwysau ychwanegol ar y system Gwasanaethau Plant. Mae'r Cyngor yn gweithredu ei Strategaeth Llety i sicrhau ei bod yn gallu diwallu anghenion plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd, tra'n sicrhau cydymffurfiaeth ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae Cam 2 y strategaeth yn seiliedig ar weithio gyda darparwyr nid-er-elw i ddarparu cartrefi newydd yng Nghaerdydd i blant sy'n derbyn gofal. Mae strategaeth ymarfer preswyl a gweithlu gadarn yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â staff, undebau llafur, ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i sicrhau bod trefniadau staffio ar waith yn ôl yr angen. Mae ehangu'r Strategaeth Awtistiaeth Genedlaethol i gynnwys yr holl niwroamrywiaeth yn arwain at alw ychwanegol ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau. Ar ben hynny, gyda'r galw yn codi a chyllidebau wedi'u cyfyngu ar draws gwasanaethau cyhoeddus, mae partneriaid yn lleihau eu gwasanaethau, gan adael y Gwasanaethau Plant yn gynyddol fel y dewis olaf.

Mae gweithredu'r Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid newydd, 'Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd', wedi parhau, ac mae cyfraddau'r bobl sy'n troseddu am y tro cyntaf ac sy'n aildroseddu yn llawer is na'r targedau ac yn parhau'n isel drwy gydol y flwyddyn. Er bod gostyngiad wedi bod yn nifer y bobl sy'n mynd i mewn i'r System Cyfiawnder Ieuenctid, o 49 yn 2020/21 i ddim ond 30 yn 2023/24, mae pryder bod effaith dargyfeirio plant o'r system cyfiawnder ieuenctid wedi rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau eraill i bobl ifanc yng Nghaerdydd.



# Amcan Lles 2:
# Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

**Ein blaenoriaethau yn 2023/24 oedd:**

- Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini ac yn gysylltiedig mewn Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn
- Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref trwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau
- Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel
- Cefnogi gofalwyr di-dâl a gwerthfawrogi eu rôl
- Sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu anghenion y rhai sy'n byw gyda dementia

## Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor o'r farn ei fod wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei ymrwymiadau i wneud Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn ac mae wedi gwneud cynnydd amlwg wrth gyflwyno dull system gyfan o atal ac ailalluogi, a chefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau. Yn sail i'r cynnydd hwn mae dull traws-Gyngor, yn enwedig gyda datblygiadau tai, a threfniadau partneriaeth cryf gyda'r sector gofal, partneriaid gwirfoddol a chymunedol a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol. Mae hyn wedi arwain at newid gwasanaethau ar draws y system iechyd a gofal, gan gynnwys y Ganolfan Ryddhau Integredig. Dros y tymor canolig, mae'r galw a'r pwysau cost yn y maes hwn yn sylweddol a rhagwelir y byddant yn codi ac felly bydd angen ffocws strategol parhaus gan y Cyngor a'i bartneriaid.

### Meysydd Cynnydd

- Mae'r Cyngor wedi ennill cydnabyddiaeth fel Cyflogwr Oed-gyfeillgar gan y Centre for Ageing Better.
- Mae'r Model Asesydd Dibynadwy wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus, sy'n golygu y gall therapyddion galwedigaethol ragnodi gofal i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, gan ryddhau amser gweithwyr cymdeithasol a lleihau ôl-groniadau o achosion.
- Yn gyffredinol, cwblhawyd 7,209 o asesiadau lles yn 2023/24, o gymharu â 5,797 yn 2022/23: cynnydd o 24% sy'n ddyledus, yn rhannol, i'r Dull Asesydd Dibynadwy.
- Mae'r Ganolfan Ryddhau Integredig wedi'i rhoi ar waith, sy'n gwella llwybrau ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty, gan ryddhau gwelyau i'r rhai sydd eu hangen fwyaf. Ar gyfartaledd, rhyddhawyd 50 o gleifion gyda gofal bob wythnos yn ystod 2023/24.
- Mae'r dull Hybiau i Bawb wedi'i dreialu, sy'n caniatáu i bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth fanteisio ar weithgareddau cymdeithasol yn eu cymunedau.

### Meysydd o Her a Risg

- Mae'r Cyngor wedi wynebu oedi wrth ddarparu addasiadau i bobl anabl, a'r amser cyfartalog yw 198 diwrnod yn erbyn targed o 150 diwrnod. Mae hyn oherwydd galw mawr a chapasiti'r contractwr.
- Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn wynebu heriau parhaus o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol. Datblygwyd a chyhoeddwyd Strategaeth Gweithlu yn 2023/24, a bydd y gwaith o'i gweithredu'n parhau tan 2024/25, ond nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd ei darged eto o lenwi 12% o swyddi gweithwyr cymdeithasol parhaol o fewn y gwasanaeth. Y canlyniad ar ddiwedd 2023/24 oedd 17.7%.
- Mae Gwasanaethau Oedolion wedi gweld twf sylweddol yn y gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd pwysau galw a chost. Mae'r gyllideb Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau wedi cynyddu 37% dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae'r gyllideb Byw'n Annibynnol a Gofal Cymdeithasol yn y Gymuned wedi cynyddu 44% dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r cynnydd mewn costau yn cynnwys talu'r cyflog byw gwirioneddol i ofalwyr.
- Wrth i boblogaeth Caerdydd heneiddio, dros y degawd i ddod rhagwelir y bydd y pwysau galw hyn yn parhau i gynyddu. Erbyn 2034:
    - Rhagwelir y bydd nifer y bobl (65 oed a hŷn) sy'n byw gyda dementia yn cynyddu 31% (o 4,156 i 6,103) a chan 37% o ran dementia difrifol (o 2,598 i 4,112).
    - Rhagwelir y bydd nifer y bobl (65 oed a hŷn) a fydd yn cael trafferth gyda gweithgareddau bob dydd yn cynyddu 17%.
- Mewn ymateb, mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi nodi dull system gyfan, sy'n canolbwyntio ar atal ac ailalluogi, gan gefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain cyhyd ag y bo modd.

## Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**



**Camau**



Mae'r camau a'r DPAau sydd wedi'u marcio'n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

## Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini ac yn gysylltiedig mewn dinas sy'n dda i bobl hŷn

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn ar gyfer 2022/23 yn Chwarter 4 a chafodd ei gyflwyno i Sefydliad Iechyd y Byd a'i gydnabod ganddo. Mae'r adroddiad hwn yn nodi wyth ymrwymiad sy'n dda i bobl hŷn y Cyngor ac yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn eu herbyn hyd yma. Mae rhai cyflawniadau allweddol yn cynnwys creu gwefan Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn, ennill cydnabyddiaeth i'r Cyngor fel Cyflogwr sy'n Dda i Bobl Hŷn gan y Centre for Ageing Better, a gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i gynorthwyo mewn amrywiol brosiectau ymchwil sy'n gysylltiedig ag oedran. Mae meysydd o gynnydd nodedig yn cynnwys cefnogi pobl hŷn i mewn i waith drwy benodi mentoriaid cyflogaeth a darparu hyfforddiant mewn pynciau fel sgiliau digidol, gwasanaeth cwsmeriaid, a chymorth cyntaf.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu cyfleoedd i bobl hŷn gadw'n actif ac aros yn gysylltiedig trwy fodel Hybiau lleol, a chafodd y cynllun peilot 'Hybiau i Bawb' ei gyflwyno'n llwyddiannus mewn pedair hyb ar draws y ddinas. Yn ogystal, ymgynghorwyd â gwirfoddolwyr cymunedol ledled Caerdydd drwy arolwg y gwasanaeth gwirfoddoli sydd newydd ei sefydlu, i helpu i hysbysu'r Cyngor am y ffordd orau o'u cefnogi wrth symud ymlaen.

## Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref trwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

Drwy gydol 2023/24, mae'r Cyngor wedi bod yn cyflwyno'r model Asesydd Dibynadwy, gan uwchsgilio Therapyddion Galwedigaethol (ThGau) i'w galluogi i ragnodi gofal i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, gan gefnogi'r unigolion hynny i adennill eu hannibyniaeth. O fis Hydref 2023, daeth ThGau y Cyngor yn Aseswyr Dibynadwy ar gyfer pob angen gofal a chymorth lefel isel. Mae hyn yn atal dyblygu ac yn helpu i ryddhau capasiti gwaith cymdeithasol i ganolbwyntio ar yr achosion mwyaf cymhleth. Mae'r aseswyr dibynadwy hyn wedi helpu i leihau'r ôl-groniad o achosion gwaith cymdeithasol oddeutu 80% yn ystod y chwe mis cyntaf o weithredu.

Gan fod ThGau yn dod â chyfoeth o wybodaeth am offer a all gefnogi annibyniaeth, mae'r newid o ran aseswyr dibynadwy hefyd wedi arbed amcangyfrif o £79 mil ar oriau gofal nad oedd eu hangen yn dilyn ymyrraeth therapi galwedigaethol.

Cwblhawyd gwerthusiad o Ofal â Alluogir gan Dechnoleg (GAD) a fydd yn helpu i lywio'r defnydd gorau o dechnoleg o'r fath yn y dyfodol, megis goleuadau awtomataidd i atal pobl rhag llithro a chwympo ac oriorau GPS i rybuddio gofalwyr am unrhyw broblemau.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu tai i bobl hŷn i gefnogi byw'n annibynnol. Yn 2023/24 agorwyd Cynllun Byw yn y Gymuned Tŷ Addison sydd wedi darparu 44 o fflatiau carbon isel o ansawdd uchel ar gyfer trigolion hŷn, gan hyrwyddo byw'n annibynnol. Dyma'r cynllun Byw yn y Gymuned cyntaf o ddeg sy'n cael eu cyflawni drwy'r rhaglen adeiladau newydd. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer y cynlluniau sy'n weddill wedi datblygu'n dda yn ystod y flwyddyn er gwaethaf rhywfaint o oedi oherwydd heriau technegol ac ariannol. Mae'r rhaglen yn cynnwys Prosiectau Byw yn y Gymuned ar Stryd Bute a Heol Lecwydd, hen Ganolfan Gymunedol Llaneirwg a'r Maelfa a datblygu pentref lles ar hen safle Coleg Michaelston yn Nhrelái.

Yn ogystal â sicrhau y gall preswylwyr gadw eu hannibyniaeth mewn amgylchedd diogel, mae agor Tŷ Addison wedi caniatáu i bobl hŷn symud i gartref sy'n llai o faint na'u tŷ cyngor neu dŷ cymdeithas dai presennol. Mae hyn, yn ei dro, wedi rhyddhau eu llety mwy i deuluoedd ar y Rhestr Aros Tai.

Er gwaethaf canlyniadau perfformiad da yn erbyn nifer o fesurau yn y maes hwn, gan gynnwys dros 98% o gleientiaid yn dweud eu bod yn teimlo y gallent fyw'n annibynnol ar ôl cefnogaeth gan y gwasanaeth Byw'n Annibynnol er enghraifft, nid yw nifer y diwrnodau a gymerir i ddarparu addasiadau i'r anabl wedi cyrraedd y targedau. Ar ddiwedd y flwyddyn, yr amser cyfartalog a gymerwyd mewn diwrnodau calendr oedd 198 yn erbyn targed o 150. Mae oedi wedi digwydd o ganlyniad i gynnydd yn y galw a chyfyngiadau capasiti contractwyr sy'n cyflawni'r addasiadau. Mae fframwaith caffael newydd yn cael ei ddatblygu, y disgwylir iddo fynd yn fyw o Chwarter 2 2024/25, gyda'r bwriad o wella'r sefyllfa hon. Er bod y canlyniad eleni yn uchel, mae'n dal i fod ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 207 o ddiwrnodau.

## Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus, yn enwedig Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro, i sicrhau bod prosesau gofal a chymorth yn arwain at drosglwyddo'n ddiffwdan, yn ddiogel ac yn brydlon o'r ysbyty er mwyn rhyddhau gwelyau ysbyty. Gwireddwyd gwelliannau i brosesau rhyddhau o'r ysbyty trwy ddatblygu'r Ganolfan Ryddhau Integredig (CRI) a llwybrau rhyddhau o'r ysbyty sydd newydd eu gweithredu. Drwy weithio ar y cyd â'r BIP, mae'r trefniadau hyn wedi arwain at 50 o bobl yr wythnos ar gyfartaledd yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda threfniadau gofal ar waith. Cynhaliwyd gwerthusiad llawn o'r CRI a'r llwybrau Rhyddhau i Adfer ac Asesu (RhAA) yn ystod Chwarter 4 2023/24. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau yn Chwarter 1 2024/25 ar ôl ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid eraill ym mis Ebrill 2024.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried barn ei ddinasyddion wrth ddarparu gofal, datblygwyd Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth, gan gyhoeddi holiaduron defnyddwyr gwasanaeth a chynnal arolygon dros y ffôn drwy gydol y flwyddyn i lywio'r cynllun. Cafodd y dulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd, er enghraifft yr arolygon ffôn, eu llywio gan adborth defnyddwyr, gyda rhai defnyddwyr yn mynegi'r awydd i siarad yn uniongyrchol â swyddog y tu allan i'r gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn am eu profiad. Mae adborth o'r ymarferion hyn bellach yn cael ei fwydo'n ôl yn rheolaidd i uwch reolwyr yn y Gwasanaethau Oedolion, ac mae'r themâu a'r camau gweithredu craidd sy'n codi yn cael eu cofnodi i lywio ymyriadau yn y dyfodol.

Cynhaliwyd cyflenwad digonol o ddarpariaeth gofal cartref a phreswyl drwy gydol y flwyddyn, er bod rhai pryderon yn parhau ynglŷn â'r ddibyniaeth uchel ar weithwyr tramor. Trwy gydol 2023/24, mae'r Cyngor wedi rhoi cymorth i'r sector gofal drwy fonitro ac annog darparwyr gofal i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gwella prosesau ar gyfer Academi Gofalwyr Caerdydd, a hyfforddi rheolwyr gofal cartref i fod yn aseswyr dibynadwy, gan eu galluogi i ragnodi gofal yn uniongyrchol, a helpu i leihau atgyfeiriadau at weithwyr cymdeithasol. Mae'r dull hwn eisoes yn dangos tystiolaeth bod llai o alw gan y rhai sydd angen gofal hirdymor.

Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn gweithio i wella gwydnwch ei weithlu gofal cymdeithasol ei hun drwy Strategaeth Gweithlu'r Gwasanaethau Oedolion. Yn 2023/24, mae'r cynnydd yn cynnwys sefydlu tîm recriwtio pwrpasol ar gyfer y gwasanaeth, adnewyddu gwefan Gwaith Cymdeithasol Caerdydd, a chreu ffilm hyrwyddo fer am ofal cymdeithasol yn y ddinas. Mae lleoliadau myfyrwyr a hyfforddeion, hyrwyddo swyddi drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac arolygon o'r gweithlu hefyd wedi'u cynnal fel rhan o'r strategaeth i helpu i ddenu a chadw gweithwyr cymdeithasol yng Nghaerdydd. Mae'r adborth a dderbyniwyd gan staff wedi llywio'r gwaith o ddatblygu cynllun newid rhaglen lawn, gan gryfhau'r cymorth a roddir i staff i gyflawni eu rolau. Mae hyn wedi caniatáu datblygu dull mwy ystwyth o gwblhau cytundebau awdurdodi ac wedi cynnwys llais staff wrth lunio arferion gwaith. Er nad yw'n cyrraedd ei darged o 12% o hyd, mae'r Cyngor wedi gweld gostyngiad chwarter ar ôl chwarter yng nghanran y swyddi gwag mewn gwaith cymdeithasol yn y Gwasanaethau Oedolion drwy gydol y flwyddyn, gan gyrraedd 17.7% erbyn Chwarter 4.

Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn parhau i brofi pwysau ariannol sylweddol sy'n gysylltiedig â lefel a chymhlethdod y galw, a chost comisiynu gofal. Mae pwysau chwyddiant wedi bod yn ddifrifol dros y blynyddoedd diwethaf, ac ar ei uchaf yn y DU yn gyffredinol ers 40 mlynedd, ac mae hynny, ynghyd ag ymrwymiad Cyflog Byw Gwirioneddol Llywodraeth Cymru i ofalwyr cofrestredig, wedi cael effaith sylweddol ar brisiau blynyddol uwch ar draws y sector. I gydnabod y materion hyn, mae cyllidebau'r Gwasanaethau Oedolion wedi cynyddu dros £45 miliwn (tua 40%) ers 2020/21, ac mae rhagolygon pwysau sylweddol pellach yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Mae'r Awdurdod Lleol yn wynebu her sylweddol wrth barhau i reoli pwysau'r ariannol hon.

## Cefnogi gofalwyr di-dâl a gwerthfawrogi eu rôl

Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau ei fod yn gwrando ar ofalwyr di-dâl a'u teuluoedd. Mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae grwpiau cymorth a chynlluniau seibiant byr wedi cael eu cynnig i ofalwyr ledled Caerdydd.

Mae'r dull Hybiau i Bawb wedi'i dreialu'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, sy'n caniatáu i bobl sydd ag anghenion gofal a chymorth fanteisio ar sesiynau yn y gymuned. Yn ogystal, mae'r Tîm Gofalwyr wedi'i alinio â'r Pwynt Cyswllt Cyntaf, gan sicrhau bod cyngor i ofalwyr ar gael ar gamau cynharaf y broses asesu. Mae'r brandio Dinas Gofal wedi cael ei ddefnyddio i hyrwyddo cymorth a chefnogaeth i Ofalwyr. Er y bu oedi, disgwylir i blatfform dosbarthu Dinas Gofal gael ei lansio yn Chwarter 1 2024/25.

## Sicrhau bod ein gwasanaethau yn diwallu anghenion y rhai sy'n byw gyda dementia


Nod y Cyngor yw cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia i fyw'n ddiogel gartref lle bynnag y bo modd. Yn 2023/24, sefydlodd y Cyngor, gyda chefnogaeth y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Gymuned Maes, fforwm ar gyfer lledaenu arfer da mewn gofal dementia. Mae hyn yn caniatáu i dimau sy'n ymwneud â gofal dementia rannu arfer da ac mae'n rhoi cyfle i bawb ddysgu a rhannu sgiliau a thechnegau. Mae staff y Cyngor, ynghyd â phartneriaid, wedi mynychu'r fforwm hwn, a oedd yn brofiad dysgu a rhwydweithio gwerthfawr. Sefydlwyd Rhwydwaith Dysgu Dementia hefyd ar gyfer cartrefi gofal ym mis Chwefror 2024. Mae'r rhwydwaith hwn yn cefnogi darparwyr gofal i wella gwasanaethau trwy ddysgu gan gyfoedion, cysylltiadau allanol eraill, ac ymchwil gyfoes.

Er mwyn cefnogi'r rhai sy'n byw gyda dementia i aros gartref, mae rhaglen helaeth o hyfforddiant wedi'i chyflwyno, wedi'i thargedu at staff y Cyngor a chydweithwyr allanol yn y sector gofal. Mae'r adborth ar yr hyfforddiant hwn wedi bod yn gadarnhaol i raddau helaeth, ac mae'r rhaglen yn cael ei hail-lunio a'i gwella dros y flwyddyn i ddod. Bydd yr adborth yn helpu i lywio'r gwaith o gomisiynu hyfforddiant pellach yn 2024/25, mewn fformatau ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Ymwelwyd â gwefan Deall Dementia 7,835 o weithiau yn ystod y flwyddyn a recriwtiwyd 22 o genhadon newydd i gefnogi busnesau lleol i ddod yn rhai sy'n deall dementia. Addawodd 261 o sefydliadau ddod yn sefydliadau sy'n deall dementia yn ystod y flwyddyn.

Er bod canlyniadau wedi dangos gwelliant drwy gydol y flwyddyn, yn Chwarter 4, nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd ei darged eto ar gyfer canran staff y Cyngor sy'n cwblhau'r hyfforddiant Cyfeillion Dementia. Y canlyniad diwedd blwyddyn ar gyfer 2023/24 oedd 67% o gymharu â tharged o 85%.

# Amcan Lles 3:
# Cefnogi pobl allan o dlodi



## Ein blaenoriaethau yn 2023/24 oedd:

- Cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng economaidd
- Parhau â'n huchelgais Dinas Cyflog Byw
- Mynd i'r afael â digartrefedd a dod â chysgu ar y stryd i ben

## Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu ystod o wasanaethau effeithiol i gefnogi pobl allan o dlodi, gan gynnwys y gwasanaethau hynny sydd wedi'u cynnwys yn yr Amcan Lles hwn ac ar draws holl raglen Cryfach, Tecach, Gwyrddach y Cyngor. Mae Gwasanaeth i Mewn i Waith a Gwasanaethau Cynghori y Cyngor yn parhau i roi cymorth effeithiol i ddinasyddion, sy'n cael ei dystiolaethu gan raddfa ac effeithiolrwydd yr ymgysylltu, yn enwedig â dinasyddion a chymunedau mwy agored i niwed, tra bod y cynllun Dinas Cyflog Byw yn parhau i ddarparu budd gwirioneddol i weithwyr ledled Caerdydd.

Er gwaethaf rhaglen gymorth y Cyngor, mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith ar fywydau llawer o bobl, ac yn ei dro mae'n arwain at bwysau ar wasanaethau'r Cyngor a sefydliadau partner. Yn benodol, mae'r costau cynyddol a brofir gan aelwydydd, ynghyd â phrinder tai fforddiadwy ar draws pob deiliadaeth yn y ddinas, yn rhoi pwysau eithriadol ar y gwasanaeth digartrefedd ac ar draws ystod o wasanaethau eraill y Cyngor a'i bartneriaid. Mewn ymateb mae'r Cyngor wedi datgan Argyfwng Tai, gydag ystod o gamau gweithredu yn cael eu gweithredu ar unwaith i reoli'r galw ochr yn ochr â rhaglen waith, gyda phartneriaid, i ehangu mynediad at dai yn gyflym, gan ganolbwyntio ar adeiladu a sicrhau tai fforddiadwy ychwanegol.

### Meysydd Cynnydd

- Cynhaliwyd ymgyrch gyhoeddusrwydd eang yn 2023/24 gan dynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan yr argyfwng costau byw. Nododd y Tîm Cyngor Ariannol fudd-daliadau wythnosol ychwanegol o dros £20 miliwn i'w gleientiaid yn ystod 2023/24.
- Roedd y gwasanaeth Cynorthwyydd Personol (CP) ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal wedi'i alinio'n gyfan gwbl â'r Gwasanaethau Cynghori. Mae hyn yn sicrhau bod gan bob person ifanc â CP fynediad at leoliadau gwaith Dechrau Disglair, cyllid ar gyfer hyfforddiant, cymorth cyflogaeth a chymorth lles.
- Darparodd y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith dros 105,000 o achosion o gymorth i mewn i waith i breswylwyr drwy'r Porth Cyflogaeth yn ystod 2023/24, cynnydd o 32% ers y flwyddyn flaenorol.
- Mae Prifysgol Caerdydd yn amcangyfrif bod y Cyflog Byw Gwirioneddol yn werth £83 miliwn i economi Caerdydd ers 2012.
- Er bod Argyfwng Tai wedi'i ddatgan ym mis Rhagfyr 2023, mae'r cyfraddau atal digartrefedd wedi aros yn sefydlog, ac ers hynny bu gostyngiad parhaus yn nifer y bobl sy'n cysgu ar strydoedd y ddinas, o oddeutu 50 o unigolion ym mis Tachwedd 2023 i 19 ym mis Mawrth 2024.

### Meysydd o Her a Risg

- Mae cyllid ar gyfer llawer o'r gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith a'r Tîm Cyngor Ariannol yn cael ei ariannu gan grant ac ar sail tymor byr. Mae hyn yn creu ansicrwydd a heriau i ddarparu parhad gwasanaeth pe bai'r cyllid hwn yn cael ei ddileu neu ei leihau.
- Mae cyfyngiadau ariannol wedi golygu nad oedd y Cyngor yn gallu creu cymaint o rolau hyfforddeion a phrentisiaid newydd â'r bwriad.
- Gall yr argyfwng economaidd heriol arwain at ostyngiad mewn busnesau sydd wedi'u hachredu drwy dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol wrth i gwmnïau ddewis peidio ag adnewyddu neu roi'r gorau i fasnachu.
- Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Cyngor argyfwng tai mewn ymateb i'r pwysau eithriadol a'r galw di-baid am wasanaethau digartrefedd. Nid yw'r gofynion hyn ar wasanaethau yn lleihau, ac mae wedi arwain at y defnydd parhaus o westai a llety brys eraill. Mae hyn yn ddrud ac nid yw'n addas ar gyfer cyfnodau estynedig.

## Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**



**Camau**



Mae’r camau a’r DPAau sydd wedi’u marcio’n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

## Ymateb i'r argyfwng economaidd

Mewn ymateb i'r argyfwng economaidd, mae cynnig cymorth y Cyngor yn parhau i gael ei ddarparu'n effeithiol. Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 cafodd ychydig dros 6,600 o bobl gymorth gyda chymorth ariannol Credyd Cynhwysol. Mae'r ffigur hwn yn fwy na dwbl nifer y bobl y rhagwelir y bydd angen help arnynt yn ystod y flwyddyn a chynnydd o 10% ers 2022/23. Dros yr un cyfnod o ddeuddeg mis, nododd y Tîm Cyngor Ariannol fudd-daliadau wythnosol ychwanegol o dros £20 miliwn i'w gleientiaid.

Mae'r Tîm Cyngor Ariannol a Chyswllt Lles wedi darparu mwy o sesiynau galw heibio a gwybodaeth ledled y ddinas ochr yn ochr â'r Tîm Budd-dal Anabledd arbenigol. Mae'r sesiynau hyn wedi llwyddo i gael atgyfeiriadau newydd mewn lleoliadau nad yw'r gwasanaeth yn mynychu'n rheolaidd. Mae hyn hefyd wedi llywio cynlluniau datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol i geisio dal mwy o gwsmeriaid mewn lleoliadau lle mae cysylltu â nhw’n anos. Mae effaith chwyddiant a chostau cynyddol ar aelwydydd yn golygu, er gwaethaf rhaglen gymorth y Cyngor, fod yr argyfwng yn cael effaith ar fywydau llawer o bobl sydd, yn ei dro, yn arwain at bwysau ar wasanaethau ar draws y Cyngor. Mae costau tai cynyddol, er enghraifft, wedi arwain at gynnydd mewn atgyfeiriadau at y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl sy’n agored i niwed a mwy o alw am wasanaethau cymorth y Cyngor. Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl sy'n cael eu hunain mewn tlodi mewn mwy o berygl o gael eu hecsbloetio gan siarcod benthyg arian - mae cyfanswm o 25 o ddioddefwyr wedi eu nodi yn ystod y flwyddyn. Mae mwy o sefydliadau'n gofyn am fewnbwn gan Atal Siarcod Benthyg Arian Cymru ac mae dros 500 o bobl ar draws gwahanol sectorau wedi cael eu hyfforddi ar arwyddion a pheryglon benthycwyr arian anghyfreithlon dros y flwyddyn.

Sicrhawyd cyllid drwy nifer o grantiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ailgyflenwi'r gronfa argyfwng ar sail disgresiwn, Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd, gan gefnogi cwsmeriaid nad oes unrhyw ddewis ariannu arall ar ôl ganddynt. Wrth aros am y cyngor cyfreithiol terfynol, bydd Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd yn symud i Sefydliad Cymunedol Cymru yn y flwyddyn ariannol newydd, gan sicrhau dyfodol y gronfa i'w galluogi i barhau i gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Yn ogystal â hyn, mae'r llwybr ôl-ddyledion rhent yn gwneud y defnydd gorau o'r holl grantiau i gefnogi'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu rhent drwy ymyriadau ymarferol. Mae hyn yn lleihau achosion o droi pobl allan ac yn golygu bod tenantiaid yn gallu aros yn eu cartrefi.

### Cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng economaidd i mewn i waith, addysg neu hyfforddiant

Mae ychydig dros 3,000 o swyddi'r Cyngor wedi'u llenwi trwy leoliadau yn ystod 2023/24 gan Caerdydd ar Waith, gwasanaeth recriwtio mewnol y Cyngor, ac ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 154 o brentisiaid a hyfforddeion yn gweithio yn y Cyngor. Mae cyfyngiadau ariannol wedi golygu nad oedd y Cyngor yn gallu creu'r 100 o rolau hyfforddeion a phrentisiaid newydd yn unol â'r targed. Fodd bynnag, crëwyd 70 o leoliadau newydd yn ystod y flwyddyn. Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, rhoddwyd cymorth i mewn i waith i dros 105,000 o bobl drwy'r Porth Cyflogaeth, cynnydd o 32% o'r flwyddyn flaenorol. Cafodd 1,342 o bobl eu cefnogi i mewn i gyflogaeth, o gymharu â 1,115 o bobl yn 2022/23 a derbyniodd dros 350 o gyflogwyr gymorth gan y tîm i Mewn i Waith i ariannu ymgeiswyr addas ar gyfer eu rolau.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud yn ystod 2023/24 i fodloni argymhelliad Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd i "wella cyfranogiad grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith". Nododd bron i hanner (48.29%) o gleientiaid i Mewn i Waith eu bod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig. Mae 33 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad gan staff o'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith, sy'n cynyddu hygyrchedd y gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn, creodd y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith ddwy swydd Mentor Cyflogaeth benodol hefyd i gefnogi unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a chael gwared ar rwystrau i gyflogaeth yn ogystal â chynyddu nifer y clybiau swyddi a ddarperir o ardal Butetown, Glan-yr-afon a Grangetown. Mae presenoldeb cymorth cyflogadwyedd lleol cynyddol yn y gymuned wedi galluogi'r gwasanaeth i ehangu ei weledledd. Yn dilyn dod â'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i ben yn 2024, mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd y Cyngor ar gyfer 2024-28 yn cynnwys camau i barhau i ganolbwyntio ar gefnogi pobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig i mewn i waith.

Mae'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith yn parhau i gefnogi pobl leol i mewn i waith, addysg neu hyfforddiant drwy raglenni arloesol. Mae rhaglenni hyfforddi 'Gyrfa mewn...' wedi'u datblygu'n ddiweddar i roi cipolwg ar wahanol sectorau cyflogaeth sy'n mynd ati i recriwtio yng Nghaerdydd a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r tîm Addysg Oedolion wedi creu pecynnau hyfforddi wythnos o hyd, gan gynnwys sesiwn 'cwrdd â'r cyflogwr', lle gall ymgeiswyr ddysgu sut beth yw gweithio yn y sector ac mewn rhai achosion, maent yn cael eu cyfweld am rolau ar yr un diwrnod. Hyd yn hyn, mae'r tîm wedi datblygu pecynnau 'Gyrfa mewn...' ar gyfer gofal cymdeithasol, gweinyddu, cynorthwywyr addysgu, lletygarwch, adeiladu, diogelwch personol ar draciau'r rheilffordd, gwaith warws, harddwch, gwaith barbwr, glanhau a gyrru bws.

Mae'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith hefyd yn parhau i weithio gyda Datblygu Economaidd a Chomisiynu a Chaffael i asesu a dylanwadu ar ymrwymiadau gwerth cymdeithasol contractwyr ar gyfer pob datblygiad sy'n gysylltiedig â Glanfa'r Iwerydd. Bydd cynllun yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2024/25 i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir trwy'r datblygiadau, yn ystod y cyfnod adeiladu yn ogystal â phan fydd y datblygiad yn weithredol, gan ganolbwyntio'n benodol ar fuddion i'r cymunedau cyfagos. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o gontractwyr mawr gan gynnwys ISG (Campws Tyllgoed), Wates (datblygiad preswyl Llanrhymni) ac Encon (Cynllun Byw yn y Gymuned Glan-yr-Afon) trwy Academi Adeiladu ar y safle i ddarparu llwybrau at gyflogaeth yn y sector ar gyfer ceiswyr gwaith ifanc ac oedolion. Mae gofynion gwerth cymdeithasol targedig yn cael eu cynnwys yn y Gwahoddiadau i Dendro, gan orfodi contractwyr i weithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth i Mewn i Waith ar sail gytundebol i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar gymunedau lleol. Bydd academïau sgiliau yn parhau i fod yn rhan allweddol o ddarparu cyflogaeth yng Nghaerdydd, gan dargedu sectorau twf. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r bartneriaeth sgiliau rhanbarthol i ddatblygu gwasanaethau ar y cyd i ddiwallu anghenion sectorau fel technoleg ariannol a thechnoleg werdd.


Fel rhan o fenter y Cyngor i gefnogi'r holl bobl sy'n chwilio am waith, ym mis Hydref 2023 cyflwynodd y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith Ffair Swyddi Caerdydd mewn partneriaeth â Scope, yr elusen cydraddoldeb i bobl anabl, ac ym mis Chwefror 2024, ei ffair swyddi gyntaf i ffoaduriaid mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd. Cafodd ceiswyr gwaith yn y ddau ddigwyddiad gyfle i gwrdd â chyflogwyr cynhwysol ac ymgysylltu â darparwyr cymorth a all eu helpu i archwilio llwybrau i mewn i waith. Mae'r prosiect Dechrau Disglair yn cynnig lleoliadau profiad gwaith â thâl am chwe mis i bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu paru i sectorau cyflogaeth y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt a neilltuir eu mentor eu hunain iddynt i'w cefnogi. Mae 31 o leoliadau Dechrau Disglair ychwanegol wedi'u sicrhau y flwyddyn ariannol hon i ddod â'r cyfanswm sydd ar gael i 86. Mae 37 o fusnesau bellach yn cynnig cyfleoedd lleoliad ochr yn ochr â 24 o dimau'r Cyngor.

Mae'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith wedi gweld newid dramatig yn nemograffig y bobl sy'n ceisio cymorth, a'r gwahaniaeth mwyaf nodedig yw bod pobl sydd eisoes mewn cyflogaeth angen cymorth i gael mynediad at gyflogaeth sy'n talu'n fwy neu sy'n fwy diogel. Gellir priodoli'r newid hwn i Brexit, Covid ac effaith costau byw ar dirwedd yr economi leol. Mae'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith yn cyflogi tri mentor i Mewn i Waith i gefnogi unigolion mewn cyflogaeth i uwchsgilio neu i sicrhau cyflogaeth â chyflog uwch neu fwy cynaliadwy. Fodd bynnag, mae cymorth ar gael i'r rhai sy'n dioddef tlodi mewn gwaith gan y Gwasanaeth i Mewn i Waith ehangach trwy'r gronfa mynediad at rwystrau a'r gronfa hyfforddiant. Bu cynnydd yn nifer yr unigolion mewn cyflogaeth sy'n defnyddio gwasanaethau fel Academi Gofalwyr Caerdydd, yr Academi Cynorthwywyr Addysgu a'r Academi Adeiladu ar y safle. Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, mae 1,147 o unigolion mewn cyflogaeth wedi cael cymorth drwy'r ddarpariaeth mentora. Mae 263 o unigolion wedi cael swydd wahanol yn dilyn y gefnogaeth. Mae 154 o unigolion wedi llwyddo i ennill cymhwyster.

O ystyried lefelau'r galw ar y gwasanaeth a'r hinsawdd ariannol heriol, mae'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith wedi adolygu a chynllunio'r cynnig gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'r tîm wedi llwyddo i sicrhau cyllid allanol, gan gynnwys Cronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) Llywodraeth y DU, Prosiect Cyflogaeth Dan Gymorth Lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r Grant Plant a Chymunedau, dros y 12 mis diwethaf. Mae gostyngiad yng nghyllid Cymunedau am Waith a Mwy Llywodraeth Cymru yn golygu bod y gwasanaeth yn ariannu mwy o wasanaethau a swyddi drwy'r CFfG. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu grwpiau allweddol o gleientiaid i'w cefnogi drwy ei rhaglenni a bydd CFfG yn cefnogi unigolion y tu allan i'r grŵp cleientiaid hwnnw. Mae'r arian allanol, fodd bynnag, yn un dros dro - mae disgwyl i'r CFfG, sy'n swm sylweddol, ddod i ben ddiwedd Mawrth 2025 ar hyn o bryd. Hyd yma, mae cyllid y CFfG wedi cefnogi 7,062 o drigolion ar eu taith cyflogaeth a thros 8,500 gyda chyngor ariannol; mae colli cyllid CFfG wedi cael ei uwchgyfeirio fel risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

## Parhau â'n huchelgais Dinas Cyflog Byw

Roedd ymchwil a wnaed gan Brifysgol Caerdydd yn ystod y flwyddyn yn cymharu Cyflog Byw Gwirioneddol Caerdydd â Chynghorau eraill Cymru a Dinasoedd Craidd y DU. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod Caerdydd yn parhau i fod ymhlith yr ardaloedd sy'n perfformio orau yn y DU. Yn 2017, nid oedd 20.7% o'r gweithlu yng Nghaerdydd - tua 42,000 o bobl - yn ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol; mae canlyniadau arolwg diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod hyn bellach wedi gostwng i 8.2%, neu 20,000 o bobl. Mae Caerdydd hefyd wedi cyflawni un o'r cynnydd uchaf yn nifer y gweithwyr sy'n cael y Cyflog Byw Gwirioneddol, gyda dros 13,300 o weithwyr yn y ddinas bellach yn elwa. Ym mis Mai 2024, cyfrifodd y Brifysgol fod y cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol ers 2012 wedi ychwanegu £82.7 miliwn yn ychwanegol at yr economi leol. Bellach mae 219 o gyflogwyr achrededig yng Nghaerdydd, gan gynnwys Admiral, yr unig gwmni o Gymru sydd wedi'i restru ar FTSE, sydd ymhlith yr 20 o sefydliadau sydd wedi'u hachredu yn y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd y targed o 260 erbyn mis Tachwedd 2024 yn cael ei gyflawni oherwydd yr amodau economaidd heriol. Eleni, rhoddodd 15 o gyflogwyr achrededig y ddinas y gorau i fasnachu, a dewisodd rhai sefydliadau eraill beidio ag adnewyddu eu hachrediad pan ddaeth y gyfradd bresennol o £12 yr awr i rym. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei hadlewyrchu ar draws y Deyrnas Unedig.



## Ymwreiddio ein dull newydd o fynd i'r afael â digartrefedd a rhoi terfyn ar gysgu ar y stryd

Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod unrhyw achos o gysgu ar y stryd yn brin, am gyfnod byr, ac nad yw'n ailadrodd. Er bod cynnydd cychwynnol yn nifer y bobl a gofnodwyd yn cysgu ar strydoedd y ddinas yn ystod gwanwyn a haf 2023, ers hynny bu gostyngiad parhaus o oddeutu 50 o unigolion ym mis Tachwedd 2023 i 19 ym mis Mawrth 2024. Lle nad oes gan y rhai sy'n cyflwyno i'r gwasanaethau gysylltiad lleol â Chaerdydd, maent yn cael eu cyfeirio yn ôl at eu hawdurdod lleol gwreiddiol i gael cymorth a chefnogaeth lle bo hynny'n bosibl.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Cyngor argyfwng tai mewn ymateb i'r pwysau eithriadol a'r galw di-baid am wasanaethau digartrefedd. Bryd hynny, roedd pob un o'r 1,699 o unedau llety dros dro yng Nghaerdydd yn llawn, gyda 707 o deuluoedd, 806 o bobl sengl, a 186 o bobl ifanc yn cael eu cartrefu ar draws y ddinas. Roedd dros 8,000 o aelwydydd ar Restr Aros Tai Gyffredin Caerdydd ac roedd data'n dangos bod 28 yn fwy o deuluoedd yn mynd i mewn i lety dros dro nag yr oedd yn gadael i fynd i lety parhaol bob mis. Roedd rhestrau aros i fynd i lety dros dro wedi cynyddu 150% ers 2021, er bod nifer y llety dros dro wedi cynyddu'n sylweddol dros yr un cyfnod. Mae'r diffyg tai fforddiadwy yn parhau i fod yn sail sylfaenol i'r argyfwng tai, gan arwain at gostau uchel ledled y sector.

Mae'r rhent preifat misol cyfartalog yng Nghaerdydd £200 yn uwch na chyfartaledd Cymru a lleiafrif bach yn unig o'r rheini sy'n cael eu hysbysebu ar neu islaw'r gyfradd Lwfans Tai Lleol (LTLl), uchafswm y budd-daliadau sy'n gysylltiedig â thai y gellir eu hawlio ar gyfer y rhai sy'n rhentu gan landlord preifat. Mae rhyddhau carcharorion yn gynnar, sy'n digwydd i fynd i'r afael â diffyg capasiti mewn carchardai, wedi effeithio ymhellach ar y pwysau ar lety person sengl. Mae hyn yn ychwanegu at nifer y bobl sengl sy'n dod ymlaen i gael help gan system sydd eisoes dan bwysau. Mae achosion eraill yr argyfwng tai yn cynnwys lefelau is o berchentyaeth, nifer uchel a chynyddol o fyfyrwyr yn y ddinas, newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig, ac yn fwy diweddar, gofynion sy'n deillio o ryfel a gwrthdaro ledled y byd. Mae ymatebion ar unwaith i'r argyfwng tai wedi cynnwys cryfhau'r gwasanaethau Atal Digartrefedd i ddiwallu'r angen cynyddol am gymorth a chanolbwyntio ar ymyrraeth gynnar. Mae cymorth atal digartrefedd bellach ar gael yn lleol mewn Hybiau Cymunedol ac o leoliadau eraill ar draws y ddinas.

Mae mwy o gydweithio hefyd yn cael ei wneud ar draws gwasanaethau i ddatrys problemau ac atal digartrefedd. O ganlyniad, mae'r amseroedd aros ar gyfer apwyntiad atal digartrefedd wedi gostwng o 30 diwrnod gwaith ym mis Medi 2022 i gyfartaledd o wyth diwrnod gwaith yn ystod 2023/24. Mae'n uwch na'r targed o lai na saith diwrnod gwaith gan fod yr achosion y mae staff yn eu hwynebu wedi mynd yn fwy cymhleth, gan gynnwys troi allan ar fyr rybudd. Bydd mwy o adnoddau yn cael eu dyrannu yn ystod 2024/25 i ddatrys hyn.

Er mwyn mynd i'r afael â'r mater yn y tymor byr, mae gwestai'n cael eu defnyddio ac maen nhw'n rhan hanfodol o ddarpariaeth llety dros dro, yn hanfodol wrth gartrefu bobl sengl a theuluoedd digartref. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn ddrud ac nid yw'n cynnig yr ateb hirdymor gorau i'r rheini yr effeithir arnynt.  Mae atebion tymor canolig i'r argyfwng tai yn cynnwys parhad o'r dull o ddefnyddio safleoedd gwag ar gyfer "defnydd yn y cyfamser".  Mae cartrefi modiwlar wedi'u gosod yn gyflym ar gyfer teuluoedd digartref ar hen safle'r Gwaith Nwy yn Grangetown. Ar hyn o bryd, y datblygiad hwn yw'r cynllun datblygu modiwlaidd mwyaf yng Nghymru dan arweiniad Cyngor. Mae'n galluogi'r Cyngor i roi hwb i'w gyflenwad o lety yn gyflymach na dulliau traddodiadol. Mae'r gwahanol fathau o unedau modiwlaidd sydd wedi'u datblygu yn cydymffurfio'n llawn â Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru. Mae cynigion i adeiladu tua 350 o unedau modiwlaidd ychwanegol a ddarperir drwy Raglen Cartrefi Caerdydd wedi'u cytuno mewn egwyddor.

Er mwyn cynyddu nifer y tai fforddiadwy yn y ddinas yn y tymor hwy, prynwyd cyfanswm o 90 o hen dai cymdeithasol yn ôl gan y Cyngor yn ystod 2023/24, gan gynyddu amrywiaeth y stoc dai. Yn ogystal, cofrestrwyd 31 eiddo ychwanegol i Gynllun Prydlesu Cymru yn ystod 2023/24, gan ddod â'r cyfanswm i 67. Er bod hyn yn is na'r targed o 40 eiddo ychwanegol, mae naw achos ychwanegol yn yr arfaeth y disgwylir iddynt gael eu cofrestru yn ystod Chwarter 1 2024/25. Mae'r Cyngor hefyd yn mynd ar drywydd cyfleoedd i brynu eiddo mawr yng nghanol y ddinas sy'n gallu darparu nifer sylweddol o gartrefi teuluol. Mae'r rhaglen datblygu tai i ddarparu 4,000 o gartrefi newydd ar gyfer y ddinas yn parhau, ac mae manylion llawn y cynnydd wedi'u cynnwys yn Amcan Lles 4.

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei ymateb i'r argyfwng tai yn barhaus. Mae gwaith y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion wrth gefnogi'r Cyngor i asesu ei ddull o gynyddu'r ddarpariaeth yn gyflym i ateb y galw cynyddol a wnaed eleni yn enghraifft o hyn.



# Amcan Lles 4:
# Cymunedau diogel, hyderus a grymus

## Ein blaenoriaethau yn 2023/24 oedd:

- Adeiladu cartrefi cyngor newydd a buddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol
- Sicrhau y diogelir plant ac oedolion rhag y perygl o niwed a cham-drin
- Creu cymunedau diogel a chynhwysol
- Hyrwyddo'r Gymraeg
- Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi poblogaeth iachach a mwy gweithgar



## Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cygnor wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni cynlluniau tai cymunedol a chynnal y stoc dai bresennol, ac mae ei raglen fuddsoddi mewn hybiau a phrosiectau adfywio lleol yn parhau i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr i gymunedau. Mae gweithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a chymunedau wrth ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi parhau i gryfhau ac mae'n sicrhau gwell canlyniadau mewn mannau problemus, gyda mwy o waith yn cael ei wneud mewn cymunedau i fynd i'r afael â chamfanteisio. O ystyried pwysigrwydd y gwaith hwn i gymunedau, bydd parhau i gyflawni mewn partneriaeth â phartneriaid cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol i wella diogelwch cymunedol, ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol, mynd i'r afael â chamfanteisio a meithrin cydlyniant cymunedol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y ddinas.

### Meysydd Cynnydd

- Mae 1,110 o gartrefi newydd wedi cael eu darparu drwy raglen datblygu tai'r Cyngor.
- Mae £5.4 miliwn wedi'i sicrhau mewn cyllid allanol i fuddsoddi mewn cymunedau lleol dros y deuddeg mis diwethaf.
- Cafwyd dros 2.2 miliwn o ymweliadau â llyfrgelloedd a hybiau yn ystod 2023/24.
- Cytunodd y Cyngor i weithio tuag at ddod yn ddinas sy'n deall niwrowahaniaeth ym mis Medi 2023.
- Ym mis Mai 2023 cymeradwywyd Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol newydd ar gyfer 2023-28.
- Mae dros 1,200 o wladolion Wcrain wedi cael eu croesawu i'r ddinas ar gyfer setliad hirdymor.
- Gwelodd Caerdydd gynnydd o 1.1 pwynt canran yn y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021; y cynnydd mwyaf ymhlith unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.
- Dyfarnwyd statws y Faner Werdd i Barc Tredelerch a Mynwent y Gorllewin, gan ddod â chyfanswm nifer y parciau Baner Werdd a gynhelir gan y Cyngor yng Nghaerdydd i 18.
- Agorodd Cronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen i'r cyhoedd ym mis Gorffennaf.

### Meysydd o Her a Risg

- Mae'r pwysau ar y farchnad dai, yn enwedig y gost gynyddol a diffyg argaeledd cartrefi yn y sector rhentu preifat, yn parhau i fod yn her strategol i'r Cyngor, gan achosi pwysau sylweddol o ran galw a chostau yn y gwasanaethau tai a digartrefedd ac ar draws nifer o wasanaethau eraill y Cyngor.
- Mae cynlluniau ar gyfer Hyb Ieuenctid Canol y Ddinas wedi'u gohirio.
- Nid yw'r Gwasanaeth Eiriolaeth newydd wedi'i lansio gan nad oedd yn bosibl penodi unrhyw un o'r darparwyr a dendrodd ar gyfer y contract.
- Mae'r gost uchel barhaus o ynni yn parhau i fod yn her fawr i GLL, y partner cyflenwi ar gyfer wyth o ganolfannau hamdden y ddinas.

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**



**Camau**



Mae'r camau a'r DPAau sydd wedi'u marcio'n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

## Darparu tai fforddiadwy

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i gynyddu nifer y tai fforddiadwy, ynni-effeithlon a charbon isel sydd yn y ddinas. Mae'r targed o ddarparu 1,000 o gartrefi newydd erbyn mis Rhagfyr 2023 wedi'i ragori, gyda 1,032 o gartrefi wedi'u cwblhau a 1,110 yn cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Mae 368 o unedau ychwanegol wrthi'n cael eu hadeiladu ac mae cyfanswm o 67 o safleoedd wedi'u nodi er mwyn galluogi'r Cyngor i gyrraedd y targed o 4,000 o gartrefi newydd erbyn 2035.

Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno arferion arloesol wrth brynu eiddo ar raddfa fawr i'w trosi'n eiddo preswyl, sydd wedi helpu i ddarparu unedau tai newydd yn y ddinas. O ystyried bod hwn yn ddull newydd o weithredu o fewn marchnad eiddo sy'n symud yn gyflym, bydd y Cyngor yn parhau i adolygu'r ffordd y mae'n gweithredu.

Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud wrth gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), gyda chyfanswm o 3,295 o gartrefi newydd yn cael eu cwblhau ar draws pum safle tai strategol yng Nghaerdydd. Dros bum mlynedd diwethaf y cynllun, mae 1,242 o gartrefi ar gyfartaledd wedi'u cwblhau bob blwyddyn. Er gwaethaf hyn, mae'r cynllun yn wynebu heriau o ran cydosod safleoedd, heriau cyfreithiol a heriau logistaidd, sy'n golygu bod y gwaith cyflawni yn dal yn arafach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae cartrefi gwag hefyd wedi cael eu defnyddio, gan wella'r stoc dai sydd ar gael. Mae 21 o anheddau ychwanegol wedi'u creu o ganlyniad i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd ar draws y ddinas. Mae hyn yn is na'r targed o 30, ond o ystyried yr eiddo gwag sector preifat sydd wedi'u dychwelyd i ddefnydd (6.9%/92), mae'r Tîm Cartrefi Gwag wedi rhagori ar eu targed cyfunol o ychwanegu 100 o gartrefi at y ddinas.

Gwnaed cynnydd da o ran codi safonau tai yn y sector rhentu preifat wrth i gynllun Rhentu Doeth Cymru fynd i'r afael ag asiantau a landlordiaid twyllodrus. Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i ymyrryd lle mae angen cymryd camau gorfodi yn erbyn landlordiaid neu lle mae angen mynd i'r afael â pheryglon i ddiogelwch mewn cartrefi.

## Cynnal ein stoc tai cyngor bresennol

Mae Uned Cynnal a Chadw Ymatebol y Cyngor yn gwneud tua 4,000 o atgyweiriadau i'n cartrefi cyngor bob mis. Cwblhawyd rhwng 93% a 97% o'r atgyweiriadau brys ar amser. Er gwaethaf gwaith sylweddol i fynd i'r afael â'r atgyweiriadau sy'n weddill, cynyddodd y nifer a oedd yn weddill yn ystod tri mis cyntaf 2024. Mae adolygiad llawn o'r Tîm Cynnal a Chadw Ymatebol ar y gweill i ddeall a gweithredu'r newidiadau a'r adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r gwaith sy'n weddill. Bydd system atgyweiriadau ar-lein newydd 'Fy Atgyweiriadau' yn cael ei lansio a bydd tenantiaid sy'n dewis ei defnyddio yn gallu adrodd a monitro atgyweiriadau sydd angen eu cynnal yn eu heiddo.

Mae'r Cyngor bob amser wedi canolbwyntio'n gryf ar fynd i'r afael â materion lleithder a llwydni yn ei stoc dai, ac mae monitro rheolaidd ar waith. Er mwyn mynd â'r gwaith hwn ymhellach, mae Tîm Cartrefi Sych pwrpasol newydd wedi'i sefydlu sy'n gweithio'n gyfan gwbl ar fynd i'r afael â phroblemau lleithder a llwydni yng nghartrefi tenantiaid cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, mae'r galw ar y tîm hwn yn uchel, ac er bod achosion yn cael eu blaenoriaethu ac ymdrinnir ag unrhyw atgyweiriadau brys, mae llawer i'w wneud o hyd i ateb y galw cynyddol hwn. Bydd yr adolygiad o'r Uned Cynnal a Chadw Ymatebol yn cwmpasu sut mae'r Tîm Cartrefi Sych yn ymateb i'r achosion hyn gan greu ymateb cyflymach i'r materion.

Mae gwaith i sicrhau bod blociau fflatiau uchel y Cyngor yn bodloni safonau diogelwch tân llym a bod tenantiaid yn derbyn diweddariadau a sicrwydd yn rheolaidd yn mynd rhagddo'n dda. Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio'n agos gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn perthynas â hyfforddiant a digwyddiadau ymgyfarwyddo mewn blociau fflatiau uchel drwy gydol 2023/24. Mae gwaith ailosod cladin yn mynd rhagddo mewn blociau fflatiau uchel Lydstep, ond mae'r tywydd gwael wedi gohirio'r gwaith ac erbyn hyn disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd Mai 2024. Mae gwaith i ailosod cladin yn Nhŷ Loudoun a Thŷ Nelson wedi'i gymeradwyo ym mis Mawrth 2024 gan ddefnyddio'r un datrysiad â'r un a ddefnyddiwyd yn fflatiau Lydstep. Mae systemau chwistrellu dŵr wedi'u gosod yn fflatiau Lydstep, Tŷ Loudoun a Thŷ Nelson, ac mae dyluniadau ar gyfer systemau chwistrellu dŵr wedi'u cymeradwyo ar gyfer Tŷ Beech a Thŷ Sycamore. Mae cynlluniau hefyd wedi'u datblygu i fodloni Safon Ansawdd Tai newydd Cymru 2023 o fis Ebrill 2024.

## Buddsoddi mewn cymunedau

Mae'r targed o sicrhau £1 miliwn mewn cyllid allanol ar gyfer buddsoddi mewn cymunedau lleol wedi cael ei ragori i raddau helaeth gyda £5.4 miliwn wedi'i sicrhau o 16 o geisiadau. Mae mabwysiadu Strategaeth Adfywio newydd wedi'i gohirio oherwydd problemau capasiti a'r angen i alinio gwaith â blaenoriaethau eraill fel trafnidiaeth. Fodd bynnag, datblygwyd drafft cyntaf o'r ddogfen fframwaith adfywio.

Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud gyda datblygiad parhaus yr Hybiau Cymunedol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gweithio tuag at gyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer yr Hyb Lles ym Mharc Trelái a Chaerau ac mae gwaith dylunio manwl yn digwydd mewn partneriaeth â'r Cyngor. Mae cynlluniau ar gyfer Hyb Ieuenctid Canol y Ddinas wedi'u datblygu ac mae gwaith dylunio Cam 3 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) yn cychwyn ar ddechrau 2024. Mae gwaith cydweithredol gyda phartneriaid a datblygwyr yn parhau ac yn gweithio'n dda ar gyfer hybiau newydd ar safleoedd cynllunio strategol gan gynnwys Hybiau Iechyd a Lles cyfunol ar safleoedd cynllunio strategol Llys-faen a Phlasdŵr.

Mae ystod o ddangosyddion perfformiad yn dangos bod y rhwydwaith presennol o lyfrgelloedd a Hybiau yn asedau cymunedol gwerthfawr iawn, gan fod y ddau yn derbyn llawer o ymwelwyr. Mae dros 2.2 miliwn o ymwelwyr wyneb yn wyneb wedi'u cofnodi yn 2023/24, ymhell dros y targed o 1.5 miliwn, a bron i 3 miliwn o ymweliadau rhithwir. Mae'r llyfrgelloedd a'r hybiau yn sgorio'n uchel hefyd o ran boddhad cwsmeriaid. Mae recriwtio nifer o fentoriaid gwirfoddoli yn ystod haf 2023 wedi cael effaith sylweddol ar oriau gwirfoddoli a gyflawnwyd ym maes Tai a Chymunedau - o fod yn is na'r targed ar ddiwedd mis Medi 2023 i ragori'r targed gan bron i 2,000 o oriau ym mis Mawrth 2024.

## Sicrhau y diogelir plant ac oedolion rhag y perygl o niwed a cham-drin

Lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed yw prif flaenoriaeth y Cyngor o hyd, gan weithio'n agos gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth i gydlynu gweithgarwch diogelu. Mae ymwybyddiaeth gorfforaethol o ddiogelu yn uchel yn dilyn rhaglen ar y cyd o weithredu gan y tîm rheoli, ac mae canran y staff sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ddiogelu bellach yn uwch na 90%. Daeth dros 2,500 o ymholiadau amddiffyn oedolion i law yn 2023/24 - cynnydd o 57% ers 2022/23. Er gwaethaf y cynnydd hwn yn y galw, mae'r Cyngor wedi cynnal ei safonau perfformiad o hyd wrth gwblhau 99% o'r ymholiadau o fewn saith diwrnod trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi'u cryfhau, gyda mwy o ffocws ar wneud penderfyniadau sy'n cael eu gyrru gan ddata. Roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) ym mis Ionawr 2024[2] yn canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu gwell y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol fel cryfder allweddol wrth gefnogi'r monitro, yr atebolrwydd a'r cyd-drefnu gwell ar draws y bartneriaeth. Amlygodd adroddiad y JICPA hefyd fod Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor 2022–25 yn cynnwys amcanion a chanllawiau clir sy'n hyrwyddo'r neges bod diogelu yn fusnes pawb ac yn gydgyfrifoldeb. (Gweler Amcan Lles 1 am fwy o fanylion.)

Mae'r model Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (DPIRhC) yn parhau i gael ei weithredu'n effeithiol. Fel rhan o'r gwaith gweithredu hwn, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o gamfanteisio, gan gryfhau gwaith partneriaeth, ymgorffori dulliau cyd-destunol o ddiogelu, a sicrhau bod canllawiau, gweithdrefnau, llwybrau a gwasanaethau clir ar waith i ymateb i gamfanteisio.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio dull seiliedig ar gryfderau i gefnogi pobl sy'n agored i niwed, gan sicrhau eu bod yn cadw'r hawl i ddewis sut y darperir eu gofal. Bydd adolygiad ffurfiol o'r dull gweithredu yn digwydd yn ystod 2024/25, fodd bynnag, mae rhywfaint o adborth cychwynnol gan staff yn cyfeirio at well boddhad mewn swydd a gwell cyfleoedd i feithrin perthnasoedd cryfach â defnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â'r teimlad bod hyn wedi dod ag unigolion yn ôl i wraidd ymarfer. Mae dros 20 o fentoriaid seiliedig ar gryfder wedi cael eu henwebu ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion i hyrwyddo a gwreiddio'r dull hwn, ac mae'r ddarpariaeth bresennol wedi'i gwella, gyda phwyslais arbennig ar oresgyn rhwystrau ieithyddol a diwylliannol i ofal.

Cynhaliwyd adolygiad o'r Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol i oedolion i nodi'r cryfderau a'r heriau. Mae wyth microfenter leol wedi'u cofrestru ac mae dau ddarparwr arall yn gweithio ar draws y rhanbarth neu'n genedlaethol. Gall microfentrau ddarparu ystod o wasanaethau, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddarparu cymorth i bobl aros yn annibynnol gartref, cwmnïaeth, cymorth i gael mynediad at grwpiau a gweithgareddau cymdeithasol, a chefnogaeth gydag anghenion gofal personol. Yn anffodus, nid yw'r

[2] https://www.arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2024-05/240507-Cardiff-JICPA-Report-cy.pdf (arolygiaethgofal.cymru)

Gwasanaeth Eiriolaeth newydd wedi'i lansio gan nad oedd yn bosibl penodi unrhyw un o'r darparwyr a dendrodd ar gyfer y contract. Felly, mae'r contractau presennol wedi'u hymestyn dros dro hyd nes y bydd proses dendro newydd yn cael ei chwblhau.

Er gwaethaf y pwysau parhaus ar wasanaethau iechyd meddwl, yn unol â'r pwysau parhaus ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol, gwnaed gwelliannau i'r cymorth sydd ar gael i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r Cyngor wedi ffurfio partneriaeth â PAPYRUS, elusen ar gyfer atal hunanladdiad ymhlith pobl ifanc (dan 35 oed) yn y DU, i weithio tuag at Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed i Gymru. Mae atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Cymorth Lles mewn Hybiau wedi cynyddu o fis i fis oherwydd bod y gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo'n helaeth. Mae dyluniad cychwynnol ar gyfer yr adeilad newydd i ddarparu gwasanaethau dydd iechyd meddwl wedi'i gymeradwyo ac mae'r prosiect bellach wedi symud ymlaen i'r cam dylunio manwl a'r dadansoddiad o gostau.

Cafodd Lloches Noddfa Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro ei lansio'n feddal ar ddechrau 2024, gan weithredu gyda nifer bach o staff ar sail apwyntiadau ffôn i ddechrau. Mae disgwyl i apwyntiadau wyneb yn wyneb gael eu cynnig o ganol mis Ebrill 2024 o adeilad newydd ym Mhen-y-lan fel rhan o gynllun peilot dwy flynedd o hyd.

Cytunodd y Cyngor i weithio tuag at ddod yn ddinas sy'n deall niwrowahaniaeth ym mis Medi 2023 ac mae Gwasanaeth Niwroamrywiaeth newydd wedi'i lansio gyda'r galw yn uwch na'r disgwyl. Mae adnoddau eisoes yn cael eu cynyddu, gan gynnwys recriwtio gweithiwr cymdeithasol pwrpasol. Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid i archwilio sut olwg sydd ar ddinas sy'n deall niwrowahaniaeth a sut y gall Caerdydd gefnogi pobl niwrowahanol a'u teuluoedd yn fwy.

Mae gwaith targedig i leihau anghydraddoldebau iechyd ar draws y ddinas wedi bod yn parhau. Mae swydd Swyddog Gwella Iechyd newydd wedi'i sefydlu i ganolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd ac mae gwaith hefyd wedi parhau i wella mynediad at wasanaethau iechyd. Mae gwaith parhaus i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol wedi parhau gyda model gwasanaeth wedi'i gyd-gomisiynu a'i gydleoli ar gyfer grwpiau sydd wedi'u diffinio'n glir sydd â'r canlyniadau iechyd gwaethaf. Yn dilyn y gwaith a wnaed eleni, bydd gwerthusiad o'r opsiynau yn cael ei ddatblygu i nodi adeiladau addas ar gyfer cydleoli'r Tîm Digartrefedd Amlddisgyblaethol, Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro a Gwasanaethau Triniaeth ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau cyn haf 2024.



## Creu cymunedau diogel a chynhwysol

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu ei ddull amlasiantaethol o ddatrys problemau mewn mannau problemus lleoledig lle ceir ymddygiad gwrthgymdeithasol cymhleth. Yng nghanol y ddinas, defnyddiodd y Cyngor Gronfa Strydoedd Saffach Llywodraeth y DU i gomisiynu murluniau mewn tair tanffordd i gerddwyr, wedi'u hysbrydoli gan hanes Caerdydd[3], ynghyd â gosod teledu cylch cyfyng mewn ardaloedd targedig yng nghanol y ddinas a Cathays. Gan ddefnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth, mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid pellach ar gyfer pumed rownd y Gronfa Strydoedd Saffach, a fydd yn helpu i ddarparu ymyriadau yn Adamsdown a Glan-yr-Afon, gan gynnwys teledu cylch cyfyng, ymyrraeth ieuenctid a mentrau addysg ar ddiogelwch ar feiciau, trais a diogelwch mewn parciau.

Yn dilyn y digwyddiadau trasig yn Nhrelái ym mis Mai 2023, a sbardunodd anhrefn difrifol, arweiniwyd ymarfer gwrando cymunedol manwl gan Gweithredu yng Nghaerau a Threlái a Grŵp Llywio Cymunedol Trelái a Chaerau newydd i ddeall blaenoriaethau'r gymuned ar gyfer y dyfodol. Ymatebodd dros 1,200 o bobl ar draws 47 o ddigwyddiadau rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2023. Nododd gwaith ymgysylltu y materion allweddol a gafodd eu grwpio wedyn yn chwe thema eang – plant a phobl ifanc; diogelwch cymunedol a diogelu; lleoedd a'r amgylchedd; iechyd a lles; cyflogaeth, safonau byw a chostau byw; a chyfathrebu ac adeiladau cymunedol. Hysbysodd gwaith ymgysylltu helaeth Gynllun Cymunedol newydd a ddatblygwyd gan y gymuned gan weithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. Bydd y cynllun yn gweld tua £2 miliwn o gyllid grant yn cael ei fuddsoddi yn y gymuned leol, wedi'i sicrhau o amrywiaeth o wahanol ffynonellau.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a merched. Ym mis Mai 2023 cytunodd Cabinet y Cyngor ar Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol newydd ar gyfer 2023-28 a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Mae ymwybyddiaeth gorfforaethol hefyd yn amlwg o uchel, gyda 84% o staff wedi cwblhau Lefel 1 o'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Mae'r Cyngor wedi parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn enwedig y rheini sy'n cyrraedd o Wcráin ac Affganistan. Yn ogystal ag ymateb i anghenion uniongyrchol y rhai sy'n cyrraedd Caerdydd, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar drosglwyddo unigolion a theuluoedd i ddarpariaeth hirdymor gynaliadwy lle bo hynny'n bosibl. Mae dros 1,200 o wladolion Wcráin wedi cael eu croesawu i'r ddinas ar gyfer setliad hirdymor. Mae'r Cyngor hefyd wedi cefnogi 800 o bobl o Affganistan i lety pontio dros dro lleol fel rhan o broses genedlaethol lle maent yn cael eu paru i gartrefi hirdymor ledled y DU. Arweiniodd penderfyniad y Swyddfa Gartref i gyflymu'n sylweddol y broses o wneud penderfyniadau cymeradwyo hefyd at bwysau sylweddol yn y galw rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023 pan dderbyniodd 497 o geiswyr lloches hysbysiad i adael eu llety yn dilyn penderfyniad ar eu cais.

[3] Murluniau newydd wedi'u hysbrydoli gan hanes a threftadaeth gerddorol Caerdydd (newyddioncaerdydd.co.uk)

## Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae cynnydd yn parhau o ran hyrwyddo'r Gymraeg, o fewn y Cyngor ac ar draws y ddinas. Erbyn hyn mae gan ychydig o dan 18% o weithlu'r Cyngor (ac eithrio staff ysgolion) sgiliau iaith Cymraeg, cynnydd o 35% ers 2022/23. Mynychodd dros 1,700 o staff gyrsiau hyfforddi Cymraeg yn ystod y flwyddyn, mwy na dwbl y nifer sydd wedi mynychu hyfforddiant yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Felly, mae 51% o staff wedi derbyn hyfforddiant, sy'n golygu bod y targed o 50% o weithlu'r Cyngor i fod wedi derbyn hyfforddiant erbyn mis Mawrth 2027 wedi'i gyflawni dair blynedd yn gynnar.

Lansiwyd gwefan Ein Dinas, Ein Hiaith / Our City, Our Language[4] ar Ddydd Gŵyl Dewi 2024. Mae'r wefan yn cyflwyno gwybodaeth am addysg a diwylliant Cymraeg ar draws y ddinas a'i nod yw darparu siop un stop i gael gafael ar yr holl weithgareddau a chyfleoedd Cymraeg a gynigir yng Nghaerdydd. Gwelodd Caerdydd gynnydd o 1.1 pwynt canran yn y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021; y cynnydd mwyaf o bell ffordd ymhlith unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.

## Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi poblogaeth iachach a mwy gweithgar

Gwnaeth Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Canolbarth De Cymru gynnydd sylweddol yn ystod 2023. Bydd endid cyfreithiol newydd yn cael ei sefydlu yn 2024 i lunio cyfeiriad rhanbarth Canolbarth y De yn y dyfodol. Mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod Caerdydd yn cael ei chynrychioli'n dda wrth ddatblygu'r strwythur llywodraethu newydd ac i ddiogelu adnoddau a chymorth grant ar gyfer y ddinas. Mae'r Cyngor wedi arwain y grŵp cydweithio a bydd yn defnyddio fframwaith Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Caerdydd 2022-27[5] wrth lunio'r blaenoriaethau ar gyfer Rhanbarth Canolbarth y De. Ymgysylltwyd â'r cyhoedd ar ddyfodol Canolfan Hamdden Pentwyn ac yn dilyn adborth, cafodd y cynllun ei ailddylunio. Mae disgwyl i GLL ailagor rhannau o'r ganolfan ganol mis Mehefin. Bydd y gwaith ar y pwll nofio yn dechrau tua'r un amser a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn y flwyddyn nesaf. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'n agos ei gontract ar gyfer gwasanaethau hamdden gyda'r darparwr GLL ac mae costau ynni uchel parhaus yn parhau i fod yn her fawr i GLL a Parkwood, gweithredwyr y Pwll Nofio Rhyngwladol. Mae trafodaethau'n parhau rhwng y Cyngor a GLL ynghylch gweithredu paneli solar a systemau adfer ynni ar safleoedd canolfannau hamdden.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gwella mannau cyhoeddus a gwyrdd yng Nghaerdydd. Dyfarnwyd statws y Faner Werdd i ddau fan gwyrdd arall, Parc Tredelerch a Mynwent y Gorllewin, gan ddod â chyfanswm nifer y parciau Baner Werdd a gynhelir gan y Cyngor yng Nghaerdydd i 18. Mae gwaith i gynyddu canopi coed Caerdydd wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda 30,000 o goed wedi'u plannu rhwng Tachwedd 2023 ac Ebrill 2024 â chymorth 2,500 o wirfoddolwyr cymunedol. Ers ei sefydlu yn 2021, mae prosiect Coed Caerdydd wedi arwain at blannu 80,000 o goed newydd mewn 280 o wahanol safleoedd ledled y ddinas, gan gynnwys mwy na 100 o barciau a mannau agored, 17 ysgol wahanol ac 11 safle cymunedol yn ogystal ag ar dir preifat. Eleni, mae'r prosiect wedi cynyddu ei ffocws ar goed stryd, gyda mwy na 200 o goed stryd mawr newydd wedi'u plannu ar strydoedd sydd heb orchudd canopi coed neu braidd dim o gwbl. Fodd bynnag, mae gwaith ar ddatblygu Dinas Parc Cenedlaethol i Gaerdydd wedi'i oedi yn 2023/24 yn amodol ar sefydlu trefniadau llywodraethu a chyflawni priodol.

Agorodd Cronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen i'r cyhoedd ym mis Gorffennaf, gan ddarparu 5km o lwybrau cylchol o amgylch y cronfeydd dŵr a chyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o chwaraeon dŵr yn ogystal â darparu hafan i fywyd gwyllt. Croesawodd yr atyniad dros 100,000 o ymwelwyr yn ystod ei naw wythnos gyntaf yn unig.

[4] Ein Dinas, Ein Hiaith - Our City Our Language

[5] Strategaeth Gweithgaredd Corfforol a Chwaraeon

# Amcan Lles 5:
# Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru

## Ein blaenoriaethau yn 2023/24 oedd:

- Arwain yr adferiad economaidd yng Nghymru
- Arwain rhaglen adfer yng Nghaerdydd
- Cefnogi adferiad y sector diwylliannol a'r rhaglen digwyddiadau mawr



## Asesiad Cyffredinol

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat i ddenu, creu a diogelu swyddi, ailadeiladu'r economi ymwelwyr a bwrw ymlaen ag ystod o brosiectau adfywio. Er mai perfformiad economaidd cyffredinol yng Nghaerdydd yw'r cryfaf yng Nghymru - gan gystadlu'n dda gyda Dinasoedd Craidd y DU - mae'r amodau economaidd ehangach yn parhau i fod yn heriol. Mae chwyddiant uchel a chynnydd mewn cyfraddau llog yn risgiau allweddol i raglen adfywio'r Cyngor ac maent yn effeithio ar hyder busnesau a buddsoddiad ehangach yn y ddinas.

### Meysydd Cynnydd

- Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i Gyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC) newydd De-ddwyrain Cymru, gan gryfhau'r gallu rhanbarthol i gydlynu a gweithredu ymatebion strategol i heriau allweddol.
- Yn 2023/24, chwaraeodd y Cyngor ran weithredol yn y gwaith o greu a diogelu dros 2,400 o swyddi.
- Mae amrywiaeth o brosiectau yn cael eu datblygu fel rhan o adfywiad Caerdydd; er enghraifft, sicrhawyd cyllid ar gyfer adfer Marchnad Caerdydd, mae gwaith galluogi wedi'i gwblhau ar gyfer yr Arena Dan Do ac mae'r Cytundeb Opsiynau ar gyfer y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol wedi dod i ben.
- Mae gwaith sylweddol ar y gweill i gyflawni Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd yn hydref 2024, tra cadarnhawyd hefyd y bydd Caerdydd yn cynnal rownd derfynol Rygbi Clwb Proffesiynol Ewrop (EPRC) yn 2025, yn ogystal ag yn un o'r dinasoedd croesawu ar gyfer Pencampwriaeth Ewrop UEFA 2028.

### Meysydd o Her a Risg

- Yn yr un modd â phob prosiect o fewn rhaglen gyfalaf y Cyngor, mae chwyddiant costau, yn enwedig chwyddiant costau adeiladu, wedi bod yn risg cyflawni a fforddiadwyedd allweddol i brosiectau yn ystod y flwyddyn. Mae ffactorau economaidd hefyd wedi golygu bod cyfraddau llog wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Er bod y Cyngor wedi ymgysylltu'n adeiladol â datblygwyr i gefnogi unedau swyddfa o ansawdd uchel mewn cynigion ailddatblygu, ni ymrwymwyd i unrhyw swyddfa 'Gradd A' newydd yn y ddinas yn 2023/24. Er bod y galw am swyddfeydd yn parhau i fod yn uchel, mae costau adeiladu a chyfraddau llog uchel yn effeithio ar allu datblygwyr i ddod â lleoedd newydd o ansawdd uchel i'r farchnad.
- Yn dilyn newidiadau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cydnerth (CAAD) mewn adeiladau cyhoeddus, cynhaliwyd gwaith arolygu trylwyr ar do Neuadd Dewi Sant. Dosbarthodd y peirianwyr a benodwyd i gynnal yr arolwg yr adeilad fel risg COCH, gan arwain at ei gau yn haf 2023 er mwyn gosod to newydd a chynnal gwaith ailwampio.
- Mae'r argyfyngau costau byw ac ynni wedi effeithio ar adferiad y ddinas, gan leihau faint o incwm gwario sydd gan lawer o bobl i'w wario ar ddigwyddiadau, diwylliant a hamdden. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas 4.16% yn is na'r targed, tra bod presenoldeb yn lleoliadau'r Cyngor 14.25% yn is na'r targed. Fodd bynnag, gellir priodoli'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynychu lleoliadau'r Cyngor hefyd i gau Neuadd Dewi Sant yn ystod haf 2023.
- Ochr yn ochr â chau Neuadd Dewi Sant, mae cau Neuadd y Ddinas er mwyn cynnal gwaith cynnal a chadw hanfodol wedi effeithio ar y Cyngor hefyd, yn bennaf oherwydd nad yw'n gallu cynnig gwasanaethau llogi ac arlwyo ar gyfer digwyddiadau. Yn y pen draw, mae cau'r adeiladau hyn wedi arwain at ddiffygion incwm sylweddol yn y gwasanaeth Diwylliant, Lleoliadau a Digwyddiadau.

## Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**



**Camau**



Mae’r camau a’r DPAau sydd wedi’u marcio’n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

### Arwain yr adferiad economaidd yng Nghymru

Er mwyn ymateb i’r heriau economaidd byd-eang, mae’r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i sicrhau economi gryfach, decach a gwyrddach, trwy agenda adfywio dinesig uchelgeisiol, darparu cymorth busnes a rhaglen barhaus o brosiectau mawr.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae’r Cyngor wedi parhau i gefnogi trosglwyddo Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) i Gyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC) newydd De-ddwyrain Cymru, gan gwblhau’r trosglwyddiad ar 1 Ebrill 2024. Chwaraeodd Caerdydd ran weithredol yn natblygiad Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sydd wedi gweld buddsoddiad sylweddol yn y rhanbarth, gan gynnwys prosiectau cymeradwy gwerth tua £420 miliwn, sydd wedi darparu 3,474 o swyddi a thua £300 miliwn a mwy mewn cronfeydd cymorth ychwanegol. Mae’r CBC newydd yn adeiladu ar drefniadau’r Fargen Ddinesig, gyda’r potensial i gryfhau’r gallu rhanbarthol i gydlynu a gweithredu ymatebion strategol i heriau allweddol. Wrth symud ymlaen, bydd y Cyngor yn parhau i weithio’n agos gyda’r CBC newydd i gefnogi Caerdydd a’r rhanbarth ehangach i wireddu eu huchelgeisiau economaidd.

### Arwain rhaglen adfer yng Nghaerdydd

Mae amrywiaeth o brosiectau yn cael eu datblygu i gefnogi economi Caerdydd, gyda’r Cyngor yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o greu a diogelu dros 2,400 o swyddi. Mae sawl prosiect hefyd wedi cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith i ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru am gyllid i adfer Marchnad Caerdydd, sy’n mynd drwy’r broses gaffael ar hyn o bryd, yn ogystal â sefydlu gweledigaeth ar gyfer Parth Buddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.  Mae cynlluniau adfywio economaidd lleol yn cynnwys datblygiad yn Stryd Tudor, gydag agor Sustainable Studios, a gwaith ymgysylltu cychwynnol ar gyfer adfywio Heol Ddwyreiniol y Bont-faen.

Mae canol y ddinas, yn arbennig, yn parhau i ddenu amrywiaeth o ddiddordeb gan fuddsoddwyr a meddianwyr, yn enwedig ar gyfer defnyddiau arloesol, ac mae’r galw am swyddfeydd yn uchel. Fodd bynnag, er bod y Cyngor wedi ymgysylltu’n adeiladol â datblygwyr i gefnogi unedau swyddfa o ansawdd uchel mewn cynigion ailddatblygu, ni ymrwymwyd i unrhyw swyddfa ‘Gradd A’ newydd yn y ddinas yn 2023/24. Er bod y galw am swyddfeydd yn parhau i fod yn uchel, mae costau adeiladu a chyfraddau llog uchel yn effeithio ar allu datblygwyr i ddod â lleoedd newydd o ansawdd uchel i’r farchnad. Fodd bynnag, mae opsiynau yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd cynlluniau newydd yn darparu cyfleoedd newydd.

Fel rhan o'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer dwyrain y ddinas, mae Dadansoddiad o'r Effaith Economaidd wedi'i gwblhau ar gyfer Parc Caerdydd, a fydd yn llywio Achos Busnes Llawn y cynllun. Mae'r prosiect yn aros am ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd, ar ôl cael ei 'alw i mewn' gan Lywodraeth Cymru, a disgwylir y penderfyniad yn Chwarter 1 2024/25. Mae'r oedi dilynol wrth ddatblygu'r cynllun yn cael ei reoli. Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i ddatblygu prosiectau sy'n ymwneud ag adfywio Bae Caerdydd. Mae'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer ailddatblygu Canolfan y Red Dragon wedi'i gymeradwyo ac mae gwaith galluogi wedi'i gwblhau ar gyfer yr Arena Dan Do; mae'r cytundeb i brydlesu'r Dociau Sych wedi'i gwblhau; ac mae'r Cytundeb Opsiynau ar gyfer y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol wedi'i gwblhau. Yn ogystal, mae diddordeb o hyd gan berchnogion eiddo a datblygwyr mewn adfywio adeiladau hanesyddol ym Mae Caerdydd, ac mae cyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer adfywio adeilad y Tollty rhestredig Gradd 2 yn Stryd Bute, a fydd yn cael ei droi'n fflatiau newydd.

Yn yr un modd â phob prosiect o fewn rhaglen gyfalaf y Cyngor, fodd bynnag, mae chwyddiant costau, yn enwedig chwyddiant costau adeiladu sy'n deillio o fwy o weithgarwch tendro, argaeledd deunyddiau a phrinder llafur, wedi bod yn risg cyflawni a fforddiadwyedd allweddol i brosiectau yn ystod y flwyddyn. Mae ffactorau economaidd hefyd wedi golygu bod cyfraddau llog wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r Cyngor yn gweithio i sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i brosiectau, er mwyn sicrhau eu bod yn symud ymlaen yn yr amserlenni a fwriadwyd. Mae arfarniadau opsiynau, achosion busnes cadarn a diwydrwydd dyladwy yn parhau i fod yn hanfodol, gan ganolbwyntio ar ddarparu cynlluniau cymeradwy o fewn y rhaglen buddsoddi cyfalaf bresennol.

## Cefnogi adferiad y sector diwylliannol a'r rhaglen digwyddiadau mawr


Yn dilyn y pandemig, mae'r ddinas wedi gweithio'n galed i ailadeiladu ei chynnig diwylliannol a digwyddiadau, gan fanteisio i'r eithaf ar ei hasedau creadigol a diwylliannol. Mae gwaith sylweddol ar y gweill ar hyn o bryd i gyflawni Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd yn hydref 2024. Yn ogystal, cadarnhawyd y bydd Caerdydd yn cynnal rownd derfynol Rygbi Proffesiynol Ewropeaidd yn 2025 ac yn un o'r dinasoedd croesawu ar gyfer Pencampwriaeth Ewrop UEFA 2028. Gyda'i gilydd, mae'r rhaglen hon o ddigwyddiadau yn cadarnhau safle Caerdydd fel cyrchfan o'r radd flaenaf ar gyfer digwyddiadau mawr. Mae'r argyfwng costau byw ac ynni yn parhau i effeithio ar adferiad economaidd, gan leihau faint o incwm gwario sydd gan lawer o bobl i'w wario ar ddigwyddiadau, diwylliant a hamdden. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas wedi cynyddu ers canlyniad y llynedd, er ei fod 4.16% yn is na'r targed, tra bod presenoldeb yn lleoliadau'r Cyngor 14.25% yn is na'r targed. Fodd bynnag, gellir priodoli'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynychu lleoliadau'r Cyngor hefyd i gau Neuadd Dewi Sant yn ystod haf 2023. Yn dilyn newidiadau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar Goncrit Awyredig Awtoclafiedig Cydnerth (CAAD) mewn adeiladau cyhoeddus, cynhaliwyd arolygon manwl ar do Neuadd Dewi Sant, a chategoreiddiodd peirianwyr penodedig yr adeilad yn risg GOCH, gan arwain at gau'r adeilad er mwyn gosod to newydd ac ailwampio'r adeilad. Ers hynny, mae Neuadd Dewi Sant wedi cael ei phrydlesu i'r Academy Music Group (AMG) fel rhan o ddull strategol o sicrhau buddsoddiad hirdymor yn y lleoliad. Fel rhan o'r dull hwn, mae AMG wrthi'n datblygu rhaglen ar gyfer adnewyddu'r adeilad, gan gynnwys cynnig dylunio ar gyfer y to newydd.

Ochr yn ochr â chau Neuadd Dewi Sant, mae cau Neuadd y Ddinas er mwyn cynnal gwaith cynnal a chadw hanfodol wedi effeithio ar y Cyngor hefyd. Mae methu â chynnig ystafelloedd i'w llogi ar gyfer digwyddiadau na gwasanaethau arlwyo oherwydd y gwaith ailwampio sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd wedi effeithio ar refeniw. Mae cau'r adeiladau hyn wedi arwain at ddiffygion incwm sylweddol yn y gyfarwyddiaeth Diwylliant, Lleoliadau a Digwyddiadau, ac fel y nodwyd yn adroddiad alldro ariannol 2023/24 y Cyngor, mae wedi arwain at orwariant blynyddol o £2.393 miliwn yn y gyfarwyddiaeth. Wrth edrych at y dyfodol, er gwaethaf yr oedi, mae'r Cyngor yn datblygu Strategaeth Twristiaeth a Digwyddiadau newydd, yn ogystal â Strategaeth Ddiwylliannol newydd, i hyrwyddo ac adfywio arlwy digwyddiadau a diwylliannol Caerdydd.

# Amcan Lles 6: Caerdydd Un Blaned

## Ein blaenoriaethau yn 2023/24 oedd:

- Datgarboneiddio'r ddinas ac arwain adferiad gwyrdd
- Trawsnewid systemau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol Caerdydd
- Rhoi cynaliadwyedd a lles wrth wraidd twf y ddinas
- Gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd Caerdydd
- Adeiladu gwydnwch yn ein rhwydwaith priffyrdd
- Gwneud Caerdydd yn ddinas ailgylchu o’r radd flaenaf



## Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni'r Strategaeth Un Blaned, gyda chynnydd da yn amlwg o ran lleihau ôl troed carbon y Cyngor a chyflawni prosiectau trafnidiaeth gynaliadwy, tai, ailgylchu ac ynni. Er bod cynnydd da yn cael ei wneud, mae'n dod yn amlwg i'r Cyngor a'i bartneriaid y bydd dod yn garbon sero-net erbyn 2030 yn heriol iawn i'r Cyngor a'r ddinas a'i bod bron yn sicr na fydd modd cyflawni hyn heb newid sylweddol mewn buddsoddiad gan y llywodraeth. Yn dilyn cyhoeddi ei Strategaeth Ailgylchu newydd ar gyfer 2022-25, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i roi rhaglen fawr ar waith fydd yn diwygio'r gwasanaethau gwastraff a chasglu i wella effeithlonrwydd a gwydnwch. Mae'r perfformiad ailgylchu diwedd blwyddyn wedi cael ei adrodd dros dro ar 60.07%, sy'n is na'r targed o 64%. Fel yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru, mae gan Gaerdydd nodweddion penodol iawn sy'n gwneud cwrdd â thargedau ailgylchu statudol yn heriol, ac mae angen rhagor o waith i gyrraedd y targed o 70% erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024/25.

### Meysydd Cynnydd

- Yn gyffredinol, gostyngodd allyriadau carbon gweithredol 'uniongyrchol' y Cyngor 11.7% rhwng 2019/20 a 2022/23. Ar ben hynny, gostyngodd allyriadau 'anuniongyrchol' y Cyngor sy'n gysylltiedig â chaffael 25.5% rhwng 2021/22 a 2022/23 (y data diweddaraf sydd ar gael).
- Mae prosiectau a rhaglenni i ddatgarboneiddio'r ddinas yn datblygu'n dda; er enghraifft, mae Cam 1 y rhwydwaith gwres ar y trywydd iawn i'w gwblhau yn 2024 ac roedd nifer y mesurau effeithlonrwydd ynni a osodwyd mewn eiddo domestig sy'n eiddo i'r Cyngor 10.13% yn uwch na'r targed diwedd blwyddyn, sef 826.
- Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd o ran darparu rhaglen drawsnewidiol o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol; er enghraifft, mae Cam 1 o'r Cledrau Croesi wedi'i dendro'n llwyddiannus, mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer mesurau blaenoriaethu bysus, ac mae cyllid ar gael i wneud cynnydd ar Gam 2 o'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer opsiynau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd.
- Mae Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2023, sy'n cyflwyno data monitro a gasglwyd yn 2022, yn dangos nad oedd unrhyw ragoriadau yn yr amcanion ansawdd aer blynyddol na'r tymor byr ar gyfer $NO_2$ mewn unrhyw safle monitro awtomatig ac anawtomatig yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad.
- Mae gwaith yn parhau ar adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffefrir, a gafodd dros 1,000 o ymatebion, mae'r Strategaeth wedi'i chwblhau a chafwyd adborth cadarnhaol.

### Meysydd o Her a Risg

- Gostyngodd allyriadau carbon ledled y ddinas 0.9% yn unig rhwng 2019 a 2021, sef y data diweddaraf sydd ar gael. Mae'n dod yn amlwg bod dod yn garbon sero-net erbyn 2030 yn ymddangos yn heriol ac mae bron yn sicr na fydd modd cyflawni hyn heb fuddsoddiad ychwanegol sylweddol gan y llywodraeth.
- Mae gostyngiadau pellach mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau bysus, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi arwain at leihau gwasanaethau, eu cyfuno ac, mewn rhai achosion, eu torri. Sicrhawyd cyllid ar gyfer mesurau blaenoriaethu bysus. Y gobaith yw y bydd y mesurau yn diogelu gwasanaethau craidd, yn gwella ansawdd teithiau ac yn gatalydd i ddenu teithwyr i fysus.
- Mae pwysau adnoddau parhaus wedi arwain at oedi pellach o ran adolygu Blaengynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (DBGE), yn ogystal â datblygu'r Strategaeth Dŵr, Llifogydd a Draenio Gynaliadwy newydd ar gyfer Caerdydd.
- Mae'r perfformiad ailgylchu diwedd blwyddyn wedi cael ei adrodd dros dro ar 60.07%, sy'n is na'r targed o 64%.

## Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**



**Camau**



Mae'r camau a'r DPAau sydd wedi'u marcio'n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

## Datgarboneiddio'r ddinas ac arwain adferiad gwyrdd

Ers datgan argyfwng hinsawdd yn 2018, gwnaed cynnydd sylweddol gan y Cyngor a sefydliadau partner allweddol wrth nodi blaenoriaethau i weithredu arnynt, datblygu rhaglen gadarn ar gyfer newid, a dechrau cymryd camau pendant tuag at leihau carbon. Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd y Cyngor ei ail Ddadansoddiad Carbon Gweithredol blynyddol, a oedd yn nodi'n glir y gostyngiad mewn allyriadau carbon ar draws holl weithrediadau'r Cyngor. Ar y cyfan, gostyngodd allyriadau gweithredol 'uniongyrchol' y Cyngor o 42,211 tunnell CO2e i 37,284 tunnell rhwng 2019/20 a 2022/23, sy'n ostyngiad o 11.7%[6]. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i lai o ddefnydd o drydan. O ran allyriadau 'anuniongyrchol', caffael yw ffynhonnell allyriadau fwyaf a mwyaf heriol y Cyngor. Er bod cyfyngiadau sylweddol yn y fethodoleg a ddefnyddir i asesu allyriadau caffael o hyd, amcangyfrifir bod allyriadau caffael y Cyngor wedi gostwng 25.5% rhwng 2021/22 a 2022/23, gan adlewyrchu, i raddau helaeth, gwaith datgarboneiddio'r grid cenedlaethol ac arferion moderneiddio eraill. Er bod y cynnydd hwn yn gadarnhaol, mae caffael yn parhau i fod yn faes heriol, ac mae angen newid ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi.

Gwnaed cynnydd yn erbyn nifer o brosiectau â blaenoriaeth, gan gynnwys:

- **Rhwydwaith Gwres:** Mae'r gwaith o osod y rhwydwaith gwres yn mynd rhagddo'n dda, ac mae Cam 1 y rhaglen yn dal ar y trywydd iawn i'w gwblhau yn 2024. Mae oedi newydd wedi dod i'r amlwg wrth sicrhau hawddfraint drwy dir trydydd parti i'r ganolfan ynni wrth gefn, a allai gael effaith ar ddyddiadau cychwyn os na chaiff ei ddatrys. Fodd bynnag, mae'r mater wedi cael ei uwchgyfeirio i'r tirfeddiannwr trydydd parti ac mae llwybr arall ac ateb dros dro yn cael eu harchwilio rhag ofn.
- **Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fawr:** Oherwydd newidiadau ym mholisi Cynllunio Llywodraeth Cymru ar ddatblygu mewn ardaloedd â statws diogelu ecolegol, nid yw cynnig fferm solar Gwynllŵg wedi cael ei ddatblygu ymhellach. Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu opsiynau er mwyn gwneud cynnydd, gan gynnwys asesu safleoedd a chyfleoedd tir posibl eraill y Cyngor. Mae un safle arall addawol yn destun asesiad o ddichonoldeb.

[6] Mae'r Cyngor yn defnyddio methodoleg fframwaith adrodd ar garbon Llywodraeth Cymru i gofnodi ei allyriadau, gyda 2019/20 yn cael ei ddefnyddio fel blwyddyn llinell sylfaen. Yn dilyn addasiadau/gwelliannau methodolegol i'r fframwaith ac i gwmpas y fframwaith, ailgyfrifwyd data llinell sylfaen 2019/20 ar gyfer y Dadansoddiad Carbon Gweithredol diweddaraf.

- **Ôl-osod Mesurau Effeithlonrwydd Ynni mewn Tai:** Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi'n dda, ac mae nifer y mesurau effeithlonrwydd ynni sydd wedi'u gosod mewn eiddo domestig sy'n eiddo i'r Cyngor 10.13% yn uwch na'r targed diwedd blwyddyn, sef 826. Mae'r gwaith wedi parhau ar garlam, er gwaethaf y cynnydd mewn costau oherwydd nifer cyfyngedig o osodwyr a dylunwyr cymeradwy. Yn ogystal, mae gwaith a wnaed i wella effeithlonrwydd ynni mewn eiddo'r sector rhentu preifat wedi gwella lefelau carbon deuocsid gan 90.7 tunnell ar amcangyfrif.

- **Cerbydau Trydan:** Cynhaliwyd adolygiad o fflyd y Cyngor, gan arwain at ddatblygu cynllun gweithredu i ddarparu Rhaglen Amnewid Fflyd. Mae'r cynnydd o ran prynu/llogi cerbydau fflyd trydan ychwanegol yn parhau i fod yn arafach na'r disgwyl oherwydd prinder lled-ddargludyddion byd-eang a galw uchel iawn am gerbydau trydan. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y sefyllfa'n dechrau gwella. Ar ben hynny, mae Map Ffordd Seilwaith Cerbydau Trydan ar ei gamau olaf. Bydd y strategaeth yn cael ei chyhoeddi yn Chwarter 1 2024/25.

- **Bwyd Iach, Lleol a Charbon Isel:** Mae rhaglen arloesi gwerth £2 miliwn a ariennir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ar y gweill, sy'n noddi ffyrdd newydd ac arloesol o dyfu, dosbarthu a datgarboneiddio'r sector bwyd lleol. Dechreuodd rownd gyntaf y rhaglen ym mis Gorffennaf 2023, gyda chyllid yn cael ei roi i FareShare Cymru, mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro, i ddatblygu prosiect ailddosbarthu bwyd dros ben. Mae'r fenter wedi darparu prydau, wedi'u gwneud o fwyd a fyddai fel arall yn mynd yn wastraff, i sefydliadau cymunedol ac elusennau sy'n cefnogi rhai o aelodau'r gymdeithas sy'n fwyaf agored i niwed. Gan weithio'n agos gyda Zero2Five, mae gwybodaeth faethol fanwl hefyd wedi gallu cael ei darparu gyda'r prydau. Bydd cam olaf y rhaglen hon yn dechrau yn hydref 2024, ac mae FareShare yn anelu at gynyddu eu cynhyrchiad o fod yn gynllun peilot i weithrediad llawn amser.

- **Ynni Adnewyddadwy yn Aber Afon Hafren:** Lansiwyd y Comisiwn Annibynnol ar ddyfodol Ynni'r Llanw yn Afon Hafren yng Nghaerdydd yn Chwarter 4. Bydd y Comisiwn Annibynnol yn adrodd ei ganfyddiadau i Borth y Gorllewin ac i Lywodraethau Cymru a'r DU yn 2025.

Mae'r cynnydd o ran datgarboneiddio'r ddinas ehangach wedi bod yn fwy cymedrol, gydag allyriadau carbon yn gostwng 0.9% yn unig rhwng 2019 a 2021, yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael[7]. Trafnidiaeth yw'r sector sy'n allyrru fwyaf ar gyfer y ddinas o hyd, gan gyfrannu 617,400 tunnell, neu 35% o allyriadau'r ddinas yn 2021.

Hyd yn oed gyda'r camau gweithredu a'r cynnydd trawiadol ar draws portffolios y Cyngor ac ymhlith partneriaid, mae'n dod yn amlwg bod cyrraedd sefyllfa garbon sero-net erbyn 2030 yn ymddangos yn heriol, a'i bod bron yn sicr na fydd modd cyflawni hyn heb fuddsoddiad sylweddol ychwanegol gan y llywodraeth. Felly, mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu 'Papur Gwyrdd' Ymateb i Newid Hinsawdd, sy'n galluogi gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf o ran bwrw targedau carbon niwtral a sut mae hyn yn cyd-fynd â thargedau cysylltiedig y llywodraeth. Bydd y Papur Gwyrdd hefyd yn rhoi dealltwriaeth gliriach o gyfleoedd buddsoddi trawsnewidiad ynni gwyrdd i'r ddinas a'r rhanbarth.

---

[7] Rhaid cydnabod bod y data hwn yn tynnu sylw at effeithiau cyfyngiadau symud COVID-19 a dychwelyd i fusnes yn ôl yr arfer wedi hynny. Bydd cyhoeddi data ar gyfer 2022 yn rhoi darlun cliriach o dueddiadau ar ôl COVID-19.

## Trawsnewid systemau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol Caerdydd

Mae gweledigaeth trafnidiaeth y Cyngor yn nodi rhaglen drawsnewidiol o fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Gwnaed cynnydd da i gyflawni'r rhaglen dros y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, wrth edrych at y dyfodol, mae cynnydd sawl prosiect yn amodol ar sicrhau ffynonellau cyllid dibynadwy a chynaliadwy. Mae diweddariadau'r prosiect yn cynnwys:

- **Metro Caerdydd a Rhanbarthol:** Gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru ac Uned Cyflenwi Burns, gwnaed cynnydd sylweddol i sicrhau gwelliannau i'r rhwydwaith Metro/Tram. Yn dilyn proses dendro lwyddiannus, bydd cwmni adeiladu ymgynghorol, WSP, yn darparu gwasanaethau rheoli rhaglenni a chostau ar gyfer Cam 1 Cledrau Croesi Caerdydd, cynllun a fydd yn gwella cysylltedd i ardal Bae Caerdydd ac oddi yno. Sefydlwyd gofod swyddfa wedi'i gydleoli i helpu i gyflawni'r gwaith a chadarnhawyd y gall gwaith datblygu achosion busnes ddechrau ar gyfer Cam 2 Cledrau Croesi Caerdydd.

- **Gwasanaethau Bws:** Mae gostyngiadau pellach mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau bysus, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi arwain at leihau gwasanaethau, eu cyfuno ac, mewn rhai achosion, eu torri. Cyflwynwyd drafft o'r Cynllun Seilwaith Blaenoriaethu Bysus i'r Cabinet ym mis Mawrth 2024, sydd wedi'i gymeradwyo ganddo, a llwyddodd y Cyngor i gael £2.2 miliwn drwy Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru ar gyfer y mesurau blaenoriaethu bysus. Y gobaith yw y bydd rhoi mwy o flaenoriaeth i fysus ar rwydwaith craidd yn amddiffyn gwasanaethau craidd, yn gwella ansawdd teithiau ac yn gatalydd i ddenu teithwyr i fysus. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun yn cael ei gynnal yn Chwarter 1 a 2 o 2024/25.

- **Terfynau Cyflymder Diofyn 20mya yng Nghymru:** Mae gwaith yn mynd rhagddo i reoli'r newid i ddinas 20mya ddiofyn; mae gweithredu Cam 1 a 2 wedi'i gwblhau, ac mae'r holl arwyddion a'r gwelliannau angenrheidiol i lonydd cerbydau wedi'u gosod.

- **Cynllun Croesi Pont Llanrhymni:** Cymeradwywyd y cais cynllunio ar gyfer y cynllun ym mis Ionawr 2024, yn amodol ar gwblhau cytundeb cyfreithiol adran 106 ac amodau ychwanegol, gan gynnwys trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (RhWE).

- **Teithio Llesol:** Mae gwaith yn parhau i ddatblygu rhwydwaith beicio â llwybrau ar wahân ar draws y ddinas, tra bod Beicffordd 4.2 yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd i liniaru'r effaith ar goed, mae gwaith dethol opsiynau cynnar wedi'i gwblhau ar gyfer Beicffordd 5; mae llwybr beicio Parc y Rhath ar y safle ac yn mynd rhagddo'n dda; ac mae gwaith ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid wedi dechrau ar Heol Casnewydd. Mae cynnydd wedi'i wneud yn y gwaith i ddatblygu'r rhan nesaf o Fap Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLl) Caerdydd hefyd. Mae astudiaeth i nodi llwybrau beicio yng Ngogledd Caerdydd yn y dyfodol wedi'i chwblhau, a bydd ei chanlyniadau yn hysbysu'r MRhTLl. At hynny, mae ysgolion yn parhau i gael eu cefnogi i weithredu Cynlluniau Teithio Llesol. Roedd 84 o ysgolion wedi cael cefnogaeth erbyn diwedd 2023/24.

- **Opsiynau Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd:** Er mwyn datblygu ffynhonnell newydd o gyllid seilwaith hirdymor, penderfynodd y Cyngor, ym mis Ebrill 2023, ystyried ystod o gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd. Mae'r Achos Busnes Strategol Cam 1 wedi'i gwblhau a'i adolygu'n annibynnol gan gymheiriaid, ac mae cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol Cam 2. Fodd bynnag, mae'r cyllid yn sylweddol is na'r disgwyl a dim ond ar gael ar gyfer 2024/25. Felly, bydd y rhaglen ar

gyfer datblygu'r gwaith astudiaethau achos busnes yn cymryd mwy o amser na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, ac mae'r Cyngor yn chwilio am ffordd ymlaen sy'n sicrhau cyllid parhaus i symud ymlaen i Achos Busnes Llawn.

- **Systemau Trafnidiaeth Deallus (SDD):** Mae paratoi strategaeth SDD wedi'i atal dros dro. Mae'r cyfle i ddatblygu'r strategaeth yn gynhwysfawr, a diffinio cwmpas yr hyn y gellir ei gyflawni, yn ddibynnol ar ffynonellau cyllid dibynadwy, y mae'n bosibl na fyddai modd eu penderfynu tan 2025 yn amodol ar achos busnes cadarn ac aliniad â'r cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd posibl.

## Ansawdd aer

Mae aer o ansawdd gwael bellach yn cael ei ystyried fel y perygl amgylcheddol mwyaf i iechyd y cyhoedd yn y DU ac mae tystiolaeth wyddonol gadarn bod llygredd aer yn lleihau disgwyliad oes. Felly, mae gwella ansawdd aer yn flaenoriaeth allweddol i'r ddinas, ac ymrwymwyd i dargedau ansawdd aer yn strategaeth drafnidiaeth 10 mlynedd y Cyngor a'r strategaeth Caerdydd Un Blaned.

Cyflwynwyd y diweddariad blynyddol ar fonitro ansawdd aer i'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2023, gyda'r adroddiad yn nodi nad oedd unrhyw ragoriadau o $NO_2$[8] yn yr Amcanion Ansawdd Aer blynyddol na'r tymor byr mewn unrhyw safle monitro awtomatig ac anawtomatig yn ystod 2022. Dangosodd canlyniadau o'r rhan fwyaf o safleoedd monitro yn 2022 ychydig yn fwy o grynodiadau $NO_2$ o gymharu â 2021, ond roedd gostyngiad o hyd o gymharu â 2019, cyn Covid. Fodd bynnag, roedd un safle monitro anawtomatig yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) Llandaf, yn agos at y terfyn amcan ansawdd aer blynyddol o 40μg / $m^3$ gyda chanlyniad o 39.3μg / $m^3$. Wrth edrych at y dyfodol, bydd Strategaeth a Chynllun Gweithredu Aer Glân dinas gyfan ar gyfer Caerdydd yn cael eu hadolygu er mwyn blaenoriaethu mesurau strategol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar lefelau ansawdd aer, er mwyn sicrhau bod lefelau ansawdd aer yn cael eu gwella'n barhaus yng Nghaerdydd, gyda ffocws penodol yn cael ei roi i wella crynodiadau $NO_2$ yn ARhAA Llandaf.

Fel y nodwyd yn y diweddariad blynyddol ar fonitro ansawdd aer, mae gwelliannau wedi'u cynnal ar Stryd y Castell, gyda chanlyniad blynyddol 2023 wedi'i gofnodi fel 33μg / $m^3$, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi cynllun trafnidiaeth parhaol sy'n sicrhau y cynhelir cydymffurfiaeth yn y tymor hir. Ar ôl cwblhau gwaith modelu trafnidiaeth ac ansawdd aer manwl, ym mis Awst 2023, rhoddodd Llywodraeth Cymru gymeradwyaeth gychwynnol o ddewis y Cyngor, yn amodol ar gyflwyno Cynllun Terfynol wedi'i ddiweddaru (Achos Busnes Llawn). Cyflwynwyd y Cynllun Terfynol i Lywodraeth Cymru yn Chwarter 3 2023/24, ac roedd yr adborth a gafwyd yn gofyn am adolygiad pellach ac am ailddrafftio'r Cynllun. Mae'r Cynllun Terfynol wedi'i ddiweddaru ac wedi'i ailgyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w adolygu. Mae'r Cyngor yn aros am ymateb er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith.

At hynny, gwnaed cynnydd sylweddol o ran gweithredu prosiectau gwella aer glân eraill yng nghanol y ddinas. Mae Boulevard De Nantes wedi derbyn cyllid i ddatblygu camau dylunio ac ymgynghori yn 2024/25, tra bod cynllun Cam 1 Dwyrain Canol y Ddinas bron â chael ei gwblhau.

[8] Nodir yr amcanion ansawdd aer sy'n gymwys i RhAALl yng Nghymru yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, Rhif 1940 (Cymru 138) a Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002, Rhif 3182 (Cymru 298). Yr amcan cyfartalog blynyddol a bennwyd ar gyfer $NO_2$ yw 40 μg/$m^3$.

## Rhoi cynaliadwyedd a lles wrth wraidd twf y ddinas

Un o brif uchelgais y ddinas yw darparu cymunedau newydd, o ansawdd uchel, sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sydd wedi'u cysylltu'n dda. Felly mae gwaith yn parhau ar adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffefrir, a gafodd dros 1,000 o ymatebion, mae'r Strategaeth wedi'i chwblhau a chafwyd adborth cadarnhaol. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn paratoi polisïau, asesiadau manwl a'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi cam nesaf yr ymgynghoriad ar y CDLl. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y Cynllun "Adneuo" neu'r Cynllun Drafft yn cael ei gynnal ar ddechrau 2025. Rhagwelir y bydd y CDLl Adneuo yn cael ei adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2024.

Rhwng Chwarter 1 a 3 2023/24, roedd gostyngiad parhaus yng nghanran y ceisiadau cynllunio gan ddeiliaid tai a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser y cytunwyd arnynt. Gellir priodoli hyn i gynnydd yng nghymhlethdod y ceisiadau a gyflwynwyd, ynghyd â chynnydd mewn gwrthwynebiadau a gohebiaeth ynghylch ceisiadau. Defnyddiwyd technoleg newydd wedi hynny i gynorthwyo swyddogion i gwblhau'r ceisiadau'n brydlon, a welodd welliant sylweddol yn Chwarter 4, gyda chanlyniad o 88% yn erbyn targed o >85%. Rhagwelir y bydd y gwelliant hwn yn parhau i gael ei adlewyrchu ym mherfformiad 2024/25.

Ar ddiwedd y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor gyrraedd ei dargedau ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy ar safleoedd maes glas a safleoedd tir llwyd. Dim ond 16.94% o dai fforddiadwy a gwblhawyd ar safleoedd maes glas, o gymharu â tharged o 30%, a 17.09% ar safleoedd tir llwyd, o gymharu â tharged o 20%. Priodolir y diffyg hwn i amodau presennol y farchnad dai. Mae datblygiad tai newydd i deuluoedd, sydd fel arfer yn cynnwys cyfran sylweddol o unedau fforddiadwy, wedi arafu oherwydd cyfraddau llog uchel a gostyngiad mewn gwerthiannau'r farchnad. At ei gilydd, roedd 16.99% o'r holl unedau tai a gwblhawyd yn 2023/24 yn fforddiadwy, gan fethu'r targed o 20%. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i'w nod o ddarparu 2,800 o gartrefi fforddiadwy erbyn 2030. Rhagwelir y bydd gwell amodau economaidd yn rhoi hwb i nifer y tai fforddiadwy sy'n cael eu cwblhau yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus.

Mae'r adolygiad o Flaengynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (DBGE), y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei gynhyrchu o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, wedi cael ei ohirio ymhellach - tan yn ddiweddarach yn 2024 - oherwydd anawsterau parhaus o ran caffael adnoddau.

## Gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd Caerdydd

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r perygl llifogydd go iawn y mae newid hinsawdd yn ei beri ac mae wrthi'n datblygu gwahanol gynlluniau atal llifogydd – gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg a phroses blaenoriaethu - mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

O ran gwelliannau amddiffyn arfordirol yn Nwyrain Caerdydd, mae'r contract adeiladu wedi'i ddyfarnu'n ffurfiol ac mae'r contractwr bellach ar y safle. Mae materion ynghylch perchnogaeth tir a ddaeth i'r amlwg yn Chwarter 3, yn sgil gwerthu'r tir yn union y tu ôl i'r rhan fwyaf orllewinol o'r amddiffyniad rhag llifogydd, wedi'u datrys i raddau helaeth, er bod materion yn parhau ynghylch lleoliad swyddfa'r safle a allai arwain at oedi. O ran y cynllun Cwr y Gamlas newydd, mae Cam 1 wedi'i gyflawni, ond mae Cam 2 y cynllun wedi'i ohirio ar hyn o bryd oherwydd diffyg cyllid. Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn gweithio i liniaru'r perygl o lifogydd sy'n gysylltiedig ag Argae Parc y Rhath. Mae cais cynllunio yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer y gwaith arfaethedig, yn ogystal â gwaith parhaus ar y dyluniad. Cyn cyflwyno'r cais, cynhelir ymgynghoriad er mwyn rhoi cyfle i'r gymuned a rhanddeiliaid roi adborth ar y cynigion.

Mae cyfrifoldebau a pholisïau perygl llifogydd y Cyngor wedi'u nodi yn Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Leol Caerdydd – fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) a'r Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009) yn y drefn honno – sydd i'w diweddaru. Fodd bynnag, mae pwysau caffael adnoddau yn Nhîm Rheoli Perygl Llifogydd y Cyngor wedi arwain at oedi wrth ddatblygu'r Strategaeth Dŵr, Llifogydd a Draenio Cynaliadwy newydd ar gyfer Caerdydd. Mae drafft o'r Strategaeth bron â chael ei gwblhau ac mae'r gwiriadau terfynol wrthi'n cael eu gwneud. Ar ôl ei gyfieithu, bydd angen cyfnod ymgynghori arall cyn ei gyhoeddi yn 2025. Mae trafodaethau'n parhau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ynghylch y dyddiadau cau diwygiedig, ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o sefyllfa'r Cyngor. Bydd y Strategaeth wedi'i diweddaru yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn asesu risgiau llifogydd ar draws y ddinas, yn ogystal â'r polisi ar gyfer buddsoddi, gan gynnwys risgiau mwy lleol a chyfleoedd ar gyfer hyrwyddo datrysiadau draenio cynaliadwy.

## Adeiladu gwydnwch yn ein rhwydwaith priffyrdd

Gwnaed cynnydd da i sicrhau gwelliannau i ffyrdd a llwybrau troed Caerdydd, gan osod arwyneb newydd ar ffyrdd a throedffyrdd ledled y ddinas. Wrth edrych at y dyfodol, bydd dull seiliedig ar risg yn cael ei ddefnyddio i nodi rhaglenni gwaith pellach, wedi'u llywodraethu gan ddirywiad asedau ac amodau cysylltiedig, gyda swm y gwaith sy'n cael ei ddarparu'n gymesur yn uniongyrchol â'r cyllidebau sydd ar gael. Yn ogystal, mae'r rhaglen i ddisodli'r holl 24,000 o oleuadau preswyl i oleuadau LED ynni isel wedi'i gwblhau, gydag uned LED newydd wedi'i gosod ledled holl ardaloedd preswyl y ddinas.

O ran gorfodi parcio sifil, mae'r adran 'Rhoi Gwybod am Broblem Parcio' o'r ap Cardiff Gov a gwefan Caerdydd wedi'i diwygio i gasglu rhagor o fanylion am y problemau sy'n cael eu hadrodd. Mae hyn wedi galluogi Swyddogion Gorfodi Sifil i dargedu ardaloedd lle mae problemau'n codi wrth ymgymryd â'u patrolau a deall a oes angen gwelliannau pellach o ran lleoli swyddogion. Yn ogystal, mae swyddogion wedi ymgymryd ag ymarferion ymgysylltu targedig â dinasyddion ynghylch opsiynau parcio diogel. Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd y Cyngor yn gweithredu fframwaith Parcio Dinas newydd fydd yn cyflwyno Parthau Parcio i reoli parcio dinesig ymhellach, lliniaru tagfeydd a gwella ansawdd bywyd cyffredinol trigolion a busnesau.

Oherwydd y tywydd gwael a gafwyd rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Tachwedd 2023, nid oedd modd cynnal yr arolwg peiriant laser SCANNER blynyddol a ddefnyddir i asesu cyflwr wyneb ffyrdd 'A', 'B' ac 'C'. O ganlyniad, nid yw'r gwerthoedd cyflwr ffyrdd cysylltiedig wedi gallu cael eu hadrodd.

## Gwneud Caerdydd yn ddinas ailgylchu o’r radd flaenaf

Yn dilyn cyhoeddi ei Strategaeth Ailgylchu newydd ar gyfer 2022-25, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i roi rhaglen fawr ar waith fydd yn diwygio’r gwasanaethau gwastraff a chasglu i wella effeithlonrwydd a gwydnwch. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno casgliadau ailgylchu ar wahân yn raddol ledled y ddinas, sydd wedi'u hehangu'n llwyddiannus i 46,000 eiddo ledled Caerdydd, yn ogystal â gwella gwasanaethau casglu wrth ymyl y ffordd. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i adolygu casgliadau gwastraff cyffredinol Caerdydd, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig, gan ystyried gwahanol feintiau biniau, amlder casglu a'u haddasrwydd.

Amrywiodd perfformiad ailgylchu drwy gydol 2023/24 - yn bennaf oherwydd bod y tunelli o wastraff a gasglwyd yn amrywio bob mis, yn ogystal ag effeithiau’r gweithredu diwydiannol – gyda'r sefyllfa diwedd blwyddyn yn cael ei hadrodd dros dro ar 60.07%, sy'n is na'r targed o 64%. Fel y ddinas fwyaf yng Nghymru, mae gan Gaerdydd nodweddion penodol iawn sy'n gwneud cwrdd â thargedau ailgylchu statudol yn heriol, ac mae angen rhagor o waith i gyrraedd y targed o 70% erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024/25. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithio i baratoi Asesiad Cychwynnol o Brosiect Strategol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd yn nodi’r cyllid sydd ei angen i wneud gwelliannau i berfformiad ailgylchu Caerdydd.

## Gweithio fel un tîm i gadw ein strydoedd yn lân

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu rhaglen gynhwysfawr o ddiwygio gwasanaethau glanhau a gorfodi Strydlun y Cyngor. Mae Cynllun Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a fydd yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni gwelliannau ar draws y ddinas, a bydd ailstrwythuro'r gwasanaeth yn dechrau yn Chwarter 1 2024/25.

Mae canlyniadau diwedd blwyddyn yn dangos bod 94.53% o dir priffyrdd a arolygwyd gan yr Awdurdod Lleol o safon glendid uchel neu dderbyniol yn 2023/24, sy’n uwch na'r targed o 90%. Serch hynny, roedd y Cyngor islaw’r targed yn 2023/24 o ran nifer y wardiau yng Nghaerdydd lle mae 90% o'r tir priffyrdd a arolygwyd o safon glendid uchel neu dderbyniol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 23 ward allan o 28 yn uwch na’r trothwy o 90%, er mai'r targed oedd i bob ward fod yn uwch na 90%. Yn ogystal, roedd nifer y camau ymchwilio Strydlun Amgylcheddol hefyd yn is na'r targed ar ddiwedd y flwyddyn, sef 19,261 o gamau yn erbyn targed o 25,000. Trwy ailstrwythuro'r gwasanaeth a chyflwyno seilwaith digidol a fydd yn helpu i gasglu tystiolaeth, rhagwelir y bydd effeithlonrwydd a pherfformiad yn cynyddu wrth symud ymlaen.


TERBERG
40
Un
Blaned
One
Planet
Dinas Carbon
Niwtral
Carbon Neutral

# Amcan Lles 7:
# Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

## Ein blaenoriaethau yn 2023/24 oedd:

- Sicrhau adeiladau Cyngor gwyrddach a mwy effeithlon, a diogelu adeiladau hanesyddol y ddinas
- Gwella cynnig digidol y Cyngor a gwella'r defnydd o ddata
- Cefnogi gweithlu medrus a chynhyrchiol iawn gyda lles staff wrth ei wraidd
- Defnyddio pŵer pwrs y wlad i gefnogi adferiad y ddinas
- Sicrhau bod y Cyngor yn cynrychioli ac yn ymateb i amrywiaeth cymunedau Caerdydd

## Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran gwella gwasanaethau corfforaethol allweddol, gan gynnwys rheoli ei asedau a'i eiddo yn effeithiol, cyflawni ei strategaeth ddigidol, cefnogi ei weithlu a rheoli ei sefyllfa ariannol. Darparwyd rhaglen waith ehangach hefyd i sicrhau bod y Cyngor a'i wasanaethau'n adlewyrchu ac yn ymateb i amrywiaeth y ddinas. Mae'r Cyngor, fodd bynnag, yn parhau i wynebu heriau cyllidebol sylweddol yn y tymor byr ac yn y tymor canolig oherwydd cyfuniad o gymhlethdod cynyddol a maint y galw ar wasanaethau, pwysau cyflog a chost ac wrth edrych at y dyfodol, bydd angen cau bwlch cyllidebol o £140 miliwn dros y pedair blynedd nesaf.  Mewn ymateb bydd angen i'r Cyngor weithio ar draws ffiniau adrannol a gyda phartneriaid i ailystyried, ac mewn rhai achosion, ailgynllunio gwasanaethau â blaenoriaeth, tra'n sicrhau bod llywodraethu cadarn a rheolaeth dda ar waith fel sail ar gyfer gwella ar draws yr holl wasanaethau.

### Meysydd Cynnydd

- Mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud o ran digideiddio gwasanaethau'r Cyngor gyda rhaglen barhaus o waith ymgysylltu sy'n llywio gofynion dinasyddion.
- Mae Cynllun Eiddo 2021-26 yn parhau i gael ei gyflawni, gyda gostyngiad parhaus mewn carbon ar draws yr ystâd weithredol.
- Mae strategaeth y gweithlu yn parhau i gael ei gweithredu, gan gynnwys cyflwyno'r rhaglen arweinyddiaeth beilot i helpu i arallgyfeirio arweinwyr y dyfodol o fewn yr Awdurdod.
- Mae pecyn cynhwysfawr o gymorth ar gael i gefnogi staff gyda phwyslais ar les staff.
- Gwnaed cynnydd da o ran cyflawni argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol ac mae adroddiad cynnydd wedi'i rannu gyda'r Tasglu ym mis Gorffennaf 2024.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal ei le ymhlith y 100 o gyflogwyr gorau yn arolwg Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, yr Awdurdod Lleol sydd â'r safle uchaf yn gyffredinol yng Nghymru.
- Cymeradwywyd y strategaeth Cyfranogiad newydd gan y Cabinet a gwelwyd cynnydd mewn cyfraddau ymateb mewn ymgyngoriadau allweddol gan grwpiau a nodwyd.

### Meysydd o Her a Risg

- Mae'r Cyngor yn wynebu heriau cyllidebol sylweddol yn y tymor byr a'r tymor canolig oherwydd cyfuniad o gymhlethdod cynyddol a maint y galw ar wasanaethau, prisiau ynni, pwysau cyflog ac effaith yr argyfwng costau byw.
- Recriwtio a chadw staff mewn meysydd allweddol o'r sefydliad. Mae hyn yn arbennig o ddifrifol mewn Gwasanaethau Oedolion a Phlant, ond mae hefyd yn cael effaith ar draws pob cyfarwyddiaeth ac yn effeithio ar gyflawni Amcanion Lles.
- Bu rhywfaint o welliant mewn perthynas â'r sefyllfa absenoldeb salwch, fodd bynnag, mae'r perfformiad cyffredinol yn uwch na'r targed ac mae'r sefyllfa'n amrywiol ar draws gwasanaethau'r Cyngor.
- Mae darparu derbyniadau cyfalaf a dderbyniwyd yn is na'r targed, ac mae nifer o drafodion yn cael eu dwyn ymlaen i flwyddyn ariannol 2024/25.
- Bu'n rhaid i'r Cyngor gau Neuadd y Ddinas a Neuadd Dewi Sant dros dro i wneud gwaith cynnal a chadw angenrheidiol.
- Er gwaethaf y cynnydd o ran lleihau effaith carbon ystâd y Cyngor, mae maint y gostyngiad sydd ei angen a'r amser a gymerir i weithredu cynigion ar raddfa fwy yn heriol iawn.

## Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**



**Camau**



Mae'r camau a'r DPAau sydd wedi'u marcio'n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

### Gwydnwch ariannol

Mae'r Cyngor yn parhau i brofi pwysau ariannol sylweddol yn dilyn gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn i'w gyllideb. Nodwyd bwlch o £30.490 miliwn yn y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, gyda bwlch o £49.7 miliwn yn y gyllideb ddangosol ar gyfer 2025/26 a £147.8 miliwn dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Mae pwysau ariannol yn parhau ar draws nifer o wasanaethau o fewn y Cyngor, yn bennaf yn y Gwasanaethau Plant, Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd. Mae'r pwysau yn y Gwasanaethau Plant yn sylweddol ac yn cael eu priodoli i bwysau'r galw parhaus a chynnydd mewn prisiau sy'n ymwneud â lleoliadau preswyl ar gyfer carfan plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod. Mae pwysau chwyddiant ehangach yn rhoi pwysau cynyddol ar ddyfarniadau cyflog, costau nwyddau a chynwyddau a brynir gan y Cyngor (megis ynni, bwyd a thanwydd) yn ogystal â chost adeiladu, deunyddiau a gwasanaethau a gomisiynir.

Er mwyn cefnogi'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2025/26 a 2026/27, cychwynnodd Cabinet y Cyngor raglen gynhwysfawr o adolygiadau gwasanaeth a chyllidebau yn Chwarter 1 2024/25 gyda ffocws ar nodi cyfleoedd i hybu effeithlonrwydd dros y tymor byr ac i nodi sut mae angen i wasanaethau newid ac addasu i fod yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Gwella cynnig digidol y Cyngor a gwella'r defnydd o ddata

Mae'r Cyngor wedi parhau i ehangu ei ystod o wasanaethau ar-lein i ddinasyddion dros y flwyddyn, gan wella mynediad i breswylwyr, helpu i reoli'r galw a lleihau costau. Mae pob gwasanaeth wedi'i alinio â llwyfannau digidol gan gynnwys Ap Cardiff Gov, y Sgyrsfot a'r wefan. Mae pobl yn parhau i lawrlwytho Ap Caerdydd. Erbyn hyn mae gan 93,000 o bobl yr Ap ac mae 20,000 wedi ei lawrlwytho dros y 12 mis diwethaf. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cysylltiadau digidol hefyd yn ystod 2023/24, yn bennaf oherwydd bod mwy o wasanaethau ar gael ar-lein fel ceisiadau am drwyddedau parcio digidol, y gallu i adrodd am oleuadau stryd diffygiol a thrwy wella'r broses o adrodd.

Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar symud prosesau swm uchel, gan gynnwys diweddaru manylion y Dreth Gyngor, rhoi gwybod am geudwll a materion goleuadau stryd, i ffwrdd o dîm gwasanaeth cwsmeriaid y

Cyngor tuag at sianeli digidol cost is. Dros 2023/24 bu gostyngiad o 23.4% yn nifer y galwadau a gynigiwyd a gostyngiad o 16.5% yn nifer y galwadau a drafodwyd. Mae prosesau mwy effeithlon wedi lleihau'r galw sy'n deillio o fethiannau a thrwy ddefnyddio swyddogaeth sgyrsio ar y we, y sgyrsbot a ffurflenni ar-lein mae cwsmeriaid wedi gallu dewis cysylltu â'r Cyngor mewn dull heblaw dros y ffôn. Mae hyn wedi galluogi'r ganolfan gyswllt i wella perfformiad cyffredinol a chanolbwyntio ar yr ymholiadau mwy cymhleth.

Mae'r newid digidol hwn wedi helpu'r Cyngor i reoli'r galw ar wasanaethau yn fwy effeithiol. Ers mynd yn fyw ym mis Awst 2023, mae 3,707 o geisiadau am newid cyfeiriad wedi'u cwblhau'n ddigidol a dim ond 42 achos sydd wedi cael eu trin dros y ffôn gan y Ganolfan Gyswllt. Mae hyn yn ostyngiad o 97% o gymharu â 3 mis cyn mynd yn fyw.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â dinasyddion mewn amrywiaeth o ffyrdd i ddeall gofynion dinasyddion a'u profiad o wasanaethau digidol y Cyngor. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu ar ffurf adborth cwsmeriaid trwy BOBi a'r Ap. Bu gostyngiad bychan yng nghanran y boddhad mewn perthynas â'r Sgyrsbot, gan ostwng o 84% yn 2022/23 i 79% yn 2023/24. Ochr yn ochr â'r arolygon cwsmeriaid sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd, mae'r Cyngor wedi cynnal arolwg digidol drwy Ganolfan Ymchwil Caerdydd ac wedi ymgysylltu â Chaerdydd sy'n Dda i Blant, y Gwasanaethau Ieuenctid a chymorth Ôl-16 i annog mwy o bobl o'r demograffig iau i ymgysylltu ynghylch gwasanaethau digidol. Bydd y dadansoddiad o'r gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i lunio gwasanaethau digidol wrth symud ymlaen a helpu i lunio'r Strategaeth Ddigidol newydd sy'n cael ei datblygu yn 2024/25.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â dinasyddion ac mae'r nifer sy'n ymgysylltu trwy Instagram wedi cynyddu i dros 17,000 o ddilynwyr. Fodd bynnag, am y flwyddyn gyntaf ers i Gyngor Caerdydd gyflwyno ei gyfrif Facebook, roedd gostyngiad yn nifer y dilynwyr gyda'r ffigur alldro o 59,407 yn is na'r targed o 60,170. Efallai y gellir priodoli'r gostyngiad hwn i newidiadau mewn algorithmau gan Meta, ond rhaid cydnabod y gallai fod uchafswm i nifer y dilynwyr mewn dinas maint Caerdydd.

## Darparu adeiladau symlach a gwyrddach i'r Cyngor

Mae ystâd tir ac eiddo'r Cyngor yn sylweddol, ac mae'n rheoli a berchen ar dros 750 eiddo. Cost rheoli, gweithredu a chynnal ystâd weithredol y Cyngor yw tua £38 miliwn, yr ail alwad fwyaf ar gyllideb y Cyngor ar ôl costau staff. Mae ansawdd cyffredinol ystâd y Cyngor yn golygu bod angen gwaith atgyweirio ar nifer fawr o eiddo, gyda gwerth £45 miliwn o waith Blaenoriaeth 1 wedi'i raglennu drwy gydol cyfnod Strategaeth Eiddo Corfforaethol 2021-26.

Mae'r Strategaeth Eiddo yn nodi pedwar maes ffocws allweddol i leihau ôl troed carbon yr amgylchedd adeiledig: moderneiddio'r ystâd, newid ymddygiad, datgarboneiddio goddefol a rhesymoli eiddo. Mae moderneiddio'r ystâd yn heriol oherwydd yr adnoddau, yr amser, graddfa'r gwaith a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â'r rhaglen waith. Mae rhaglen adolygu pedair blynedd hefyd wedi'i datblygu ar gyfer portffolio eiddo Corfforaethol ac Addysg y Cyngor.

Caeodd Neuadd y Ddinas, adeilad rhestredig Gradd 1, dros dro ym mis Hydref 2023 i fynd i'r afael â materion cynnal a chadw hirdymor, ei gwneud yn addas at y diben ac ar gael i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo, ond amlygodd gofynion treftadaeth yr angen am ymestyn yr amserlen i ymgymryd â'r gwaith cynnal a chadw mewn ffordd sy'n cydymdeimlo â gwead yr adeilad ac sy'n gwarchod ei statws rhestredig Gradd 1. Er y bydd y gwaith cam 1 yn galluogi'r adeilad i ailagor a gweithredu fel lleoliad digwyddiadau, bydd angen gwneud rhagor o waith cyn y gellir ail-feddiannu'r swyddfeydd yn yr adeilad.

Mae cau Neuadd y Ddinas a Neuadd Dewi Sant dros dro i gynnal gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ac ildio Tŷ Willcox wedi cael effaith ar dargedau datgarboneiddio gyda gostyngiad o 5% mewn Carbon ar draws amgylchedd adeiledig y Cyngor. Rhagwelir y bydd ôl troed carbon yr amgylchedd adeiledig yn parhau i ostwng yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, mae maint y gostyngiad sydd ei angen a'r amser a gymerir i weithredu cynigion ar raddfa fwy yn heriol iawn.

Ym mis Mehefin 2023, cymeradwyodd y Cabinet y Strategaeth Swyddfa Graidd i symud ymlaen i Achos Busnes Llawn ar gyfer yr opsiwn a ffefrir. Nod y Strategaeth yw darparu ateb hirdymor newydd i leihau'n sylweddol y pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â'r ôl-groniad cynyddol o waith cynnal a chadw a cheisio cyfrannu at leihau effaith carbon ystâd eiddo'r Cyngor.

Mae darparu derbyniadau cyfalaf yn parhau i fod yn amcan hanfodol i'r Cyngor ac mae Cynllun Eiddo Blynyddol 2023/24 wedi gosod targed o £3 miliwn. Hyd yma derbyniwyd £1.6 miliwn o dderbyniadau cyfalaf, gyda nifer o drafodiadau'n cael eu trosglwyddo i flwyddyn ariannol 2024/25.

## Cefnogi gweithlu medrus a chynhyrchiol iawn gyda lles staff wrth ei wraidd

Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu heriau o ran y gweithlu, gan gynnwys heriau recriwtio a lefelau uchel o salwch mewn gwasanaethau penodol. Mae Strategaeth y Gweithlu 2023-27 yn nodi cyfres o fesurau i ymateb i'r heriau hyn ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y saith mis diwethaf. Mae'r strategaeth wedi darparu system Buddion Gweithwyr newydd i gefnogi staff gyda phwysau costau byw ac mae cynnig cyflogaeth y Cyngor yn parhau i fod yn ddeniadol mewn amgylchedd recriwtio cystadleuol. Mae disgwyl i nifer o brosiectau recriwtio gael eu lansio yn y flwyddyn nesaf, gan gynnwys treialu paneli recriwtio amrywiol ar gyfer rhai rolau, ailddiffinio dulliau ymgeisio i wneud ymgeisio am swyddi'n fwy syml i ymgeiswyr yn ogystal â mesurau eraill sydd wedi'u cynllunio i ddenu ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr.

Mae problemau recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn amlwg ar draws sawl gwasanaeth, sy'n effeithio ar gyflawni prosiectau ac ymrwymiadau penodol. Mae hyn yn arbennig o wir yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant, a dyna pam y gwnaed gwaith sylweddol i ddatblygu dulliau wedi'u teilwra o recriwtio a chadw staff. Mae gwaith yn parhau i gefnogi rheolwyr wrth recriwtio a chadw unigolion talentog mewn marchnad gystadleuol, yn ogystal â chefnogi cyfarwyddiaethau i greu llwybrau yn eu rolau anoddach eu llenwi.

Nododd y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol fod angen i'r Cyngor gynyddu cynrychiolaeth staff lleiafrifoedd ethnig ar raddau uwch a graddau bwydo. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Cyngor wedi cwblhau cynllun peilot o'i raglen arweinyddiaeth gyntaf, gyda chyfranogwyr o grwpiau a rhwydweithiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cymryd rhan, ac ymgysylltiad gan staff lefel uwch wrth gyflwyno'r rhaglen, drwy gyflwyno sesiynau, mentora cyfranogwyr a derbyn mentora o chwith gan gyfranogwyr. Mae adolygiad yn cael ei gynnal i ystyried cyflwyno'r rhaglen ymhellach ar draws y gweithlu ehangach. Cynhaliwyd adolygiad ar gyfer hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac mae modiwlau hyfforddiant ychwanegol ar waith ar gyfer staff, gyda gwaith yn cael ei wneud i gyflwyno hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol pellach ar gyfer yr holl staff yn ystod 2024/25.

Mae absenoldeb salwch yn parhau i fod yn her i'r Cyngor gyda ffigur alldro o 11.73 o ddiwrnodau cyfwerth ag amser llawn yn cael eu colli fesul person i absenoldeb salwch yn erbyn targed o 9.5 diwrnod cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn ostyngiad ar alldro 2022/23 o golli 12.0 o ddiwrnodau cyfwerth ag amser llawn ac yn welliant bach iawn ar y ffigur a ragwelir o 11.80 ar ddiwedd Chwarter 3. Mae salwch Covid-19 wedi

gostwng yn sylweddol dros y 12 mis diwethaf. Dim ond 3.14% o'r salwch sy'n ymwneud â Covid-19 o gymharu â 12.35% yn 2022/23. Mae cymorth targedig yn parhau i gael ei ddarparu i wasanaethau sydd â lefelau uchel o absenoldeb salwch, yn enwedig o ran rheoli absenoldeb salwch hirdymor. Straen y tu allan i'r gwaith a straen yn gysylltiedig â'r gwaith yw'r ddau reswm uchaf o hyd dros absenoldeb salwch hirdymor ac mae Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn parhau i ddarparu cefnogaeth trwy Iechyd Galwedigaethol, y Gwasanaeth Cwnsela Cyflogeion a gwasanaethau cymorth eraill fel VIVUP (ein Rhaglen Cymorth Cyflogeion) a sesiynau grŵp cymorth lles.

Enillodd y Cyngor y safle uchaf ar gyfer unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall 2024, gan gadw ei statws Gwobr Aur.

## Defnyddio pŵer pwrs y wlad i gefnogi adferiad y ddinas

Mae'r Cyngor yn gwario dros £600 miliwn y flwyddyn yn caffael ystod o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan dros 8,000 o gyflenwyr a chontractwyr. Mae maint a graddfa gwariant y Cyngor yn cynnig cyfleoedd i drosoli budd cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, sefydlodd y Cyngor Wasanaethau Caffael Ardal, partneriaeth gaffael gydweithredol gyda Chyngor Sir Fynwy, Torfaen a Bro Morgannwg sy'n ceisio hyrwyddo caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol a manteisio'n llawn ar yr effaith gadarnhaol ar les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar draws y bartneriaeth a'r fframweithiau.

Trwy gydol 2023/24 aeth tua 50% o wariant y Cyngor i sefydliadau yng Nghaerdydd, 65% ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a 71.5% i sefydliadau yng Nghymru. Roedd y ffigurau gwariant yn is na'r targedau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Mewn ymateb, mae'r Cyngor yn parhau i adolygu ei ddata gwariant lleol a nodi cyfleoedd pellach gyda chwmnïau lleol, gan gynnwys cynnal 'dadansoddiad o'r bylchau' i ddeall lle mae'r gwariant gyda chyflenwyr lleol yn isel a datblygu strategaethau i fynd i'r afael â hyn.

Er bod y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran ymgorffori gofynion Gwerth Cymdeithasol (Buddion Cymunedol) mewn contractau a thendrau, roedd y gwerth a gyflawnwyd yn brin o'r targed blynyddol o £6 miliwn, gan amcangyfrif ffigur alldro o £3.7 miliwn ar gyfer 2023/24. Cynhaliwyd adolygiad o'r porthol gwerth cymdeithasol i gaffael system well i gyflenwyr a Chyfarwyddiaethau gofnodi a monitro darpariaeth gwerth cymdeithasol. Mae hyn wedi dod yn flaenoriaeth er mwyn bodloni gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 sy'n ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor adrodd ar yr holl fuddion cymunedol ar gontractau adeiladu dros £2 miliwn o ddiwedd 2024.

## Sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ffordd well o wrando ar y ddinas mae'n ei gwasanaethu a siarad â hi

Ym mis Mehefin 2023, lansiodd y Cyngor Gronfa Cydlyniant beilot newydd i gefnogi grwpiau cymunedol sy'n ceisio creu cymunedau mwy cynhwysol ac adeiladu pontydd rhwng cymunedau amrywiol y ddinas. Derbyniodd y gronfa nifer fawr o geisiadau o ansawdd uchel, a llwyddodd 11 o brosiectau i dderbyn cyllid, gan gynnwys Tennis Cymru, Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Gweithredu yng Nghaerau a Threlái, Diversity Unplugged a Chymdeithas Merched Indiaidd Cymru. Cyflwynodd pob un o'r 11 sefydliad eu digwyddiadau gan gyrraedd dros 2,000 o bobl drwy eu heffaith gyfunol. Mae llwyddiant y cynllun peilot yn 2023/24 wedi galluogi cylch estynedig o gyllid trwy 2024/25.

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi barn a chyfraniadau ei ddinasyddion ac mae cyfraddau ymateb i arolygon ymgynghori rheolaidd, dinas gyfan y Cyngor yn parhau'n uchel. Cafwyd 9,001 o ymatebion i brif arolwg ymgynghoriad Cyllideb 2024/25 y Cyngor a chyfanswm o 103 o ymatebion i'r arolwg ieuenctid, tra bod Arolwg Holi Caerdydd 2023 wedi derbyn dros 3,000 o ymatebion. Roedd dros 70% o'r ymatebwyr yn fodlon â Chaerdydd fel lle i fyw ynddo a gwelwyd cynnydd mewn lefelau boddhad ar gyfer nifer o feysydd gan gynnwys llyfrgelloedd/Hybiau (69.2%), goleuadau stryd (67.95%), delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (44.2%) a gofalu am yr henoed (37.3%). Gostyngodd nifer y bobl a oedd yn fodlon â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y Cyngor i 39% yn erbyn targed o 70% gyda bodlonrwydd â thrafnidiaeth gyhoeddus, cynnal a chadw ffyrdd a chasgliadau ailgylchu a gwastraff hefyd yn gostwng o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Cymeradwywyd Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor gan y Cabinet ac mae'n nodi camau i gynyddu ymgysylltiad â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac annog pobl leol ymhellach i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Roedd hyn yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023. Mae'r Cyngor, wrth gydnabod yr angen i wella ymgysylltiad â grwpiau nas clywir yn aml a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, wedi sicrhau bod yr ymgynghoriad ar gael yn Gymraeg, Pwyleg, Arabeg a Bengaleg, ac mae copïau caled yn cael eu hargraffu a'u rhoi ar gael i'r cyhoedd ledled y ddinas. Rhoddwyd ffocws penodol ar ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl hŷn a phobl sy'n uniaethu fel pobl anabl. Roedd lefelau ymgysylltu â'r Strategaeth yn gadarnhaol gyda dros 1,300 o ymatebion wedi eu derbyn a dros un o bob pump (19.4%) o'r ymatebwyr erioed wedi rhannu eu barn gyda'r Cyngor o'r blaen.

Ar ôl derbyn adroddiad terfynol Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd, gwnaed cynnydd yn erbyn yr argymhellion ar draws y pum maes thematig.

Bydd y Tasglu yn ailymgynnull yn haf 2024 i roi trosolwg o'r cynnydd i Arweinydd y Cyngor, ynghyd ag argymhellion ar gyfer meysydd ffocws parhaus ochr yn ochr ag adroddiad blynyddol o gynnydd a gynhyrchwyd gan bartneriaid y BGC. Bydd yr argymhellion i'r Cyngor sy'n parhau i fod yn agored ac yn barhaus mewn perthynas â chynllun gweithredu'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol yn cael eu hymgorffori yn Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant y Cyngor. Mae'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drafft ar gyfer 2024-28 wedi'i datblygu a bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ym mis Mai 2024.

Yn 2023/24 cofnodwyd cyfanswm o 3,724 o gwynion. Mae hyn yn gynnydd o 21.3% ar ffigur 2022/23 lle cofnodwyd 3,071 o gwynion. Cafodd y nifer uchaf o gwynion eu derbyn gan y gwasanaeth Strydlun, gyda 1,760 o gwynion yn 2023/24. Mae hyn yn gynnydd o 32.93% o gymharu â 2022/23. Yn ystod 2023/24, roedd nifer y cwynion a gafodd eu huwchgyfeirio at yr Ombwdsmon yn parhau'n gymharol gyson gyda 144 o achosion yn ymwneud â Chyngor Caerdydd yn cael eu cau. O'r 144 achos hynny, nodwyd bod angen i'r Cyngor weithredu pellach ar 28 ohonynt ar ffurf Setliad Datrysiad Cynnar. Mae'r cysondeb hwn yn awgrymu bod y Cyngor wedi bod yn rheoli pryderon y cyhoedd yn effeithiol ac yn cynnal perfformiad cyson wrth ymdrin â chwynion. Mae'r nifer hwn o gwynion sy'n cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon yn cael ei ystyried yn ddangosydd allweddol o ba mor dda y mae'r Cyngor yn ymdrin â chwynion. Mae'r weithdrefn ymdrin â chwynion yn helpu'r Cyngor i fynd i'r afael ag anfodlonrwydd cwsmeriaid, cynnig cyfle i ddysgu o brofiad, gwneud gwelliannau ac atal problemau tebyg rhag codi eto.



Hawlfraint prif ddelwedd y clawr blaen Croeso Cymru

CARDIFF
CAERDYDD